Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU | AUDIT AND GOVERNANCE COMMITTEE |
| DYDD IAU, 9 CHWEFROR 2017 am 2 y.p. | THURSDAY, 9 FEBRUARY, 2017 at 2:00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor — Ann Holmes 01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Annibynnol / Independent**

Jim Evans, Dafydd Rhys Thomas a Richard Owain Jones

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

John Griffith (Is-Gadeirydd/Vice-Chair), Alun W Mummery a Nicola Roberts

**Grwp Chwyldroad/Revolutinist Group**

Peter S. Rogers

**Heb Ymaelodi/Unaffiliated**

R Ll Jones (Cadeirydd/Chair)

**AELODAU LLEYG / LAY MEMBERS**

Mr Richard Barker a Mrs Sharon Warnes

## R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o dddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog.

2 **COFNODION CYFARFOD 6 RHAGFYR, 2016** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 6ed Rhagfyr, 2016.

3 **ARCHWILIAD YR ASIANTAETH SAFONAU BWYD** (Tudalennau 9 - 12)

Cyflwyno adroddiad Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd ynglyn ag archwiliad dilyn i fyny yr Asiantaeth Safonau Bwyd o'r Gwasanaeth Gorfodaeth Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid yn Ynys Môn.

4 **ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 13 - 66)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Archwilio Mewnol.

5 **ADRODDIADAU DILYNIANT ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 67 - 72)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Archwilio Mewnol.

6 **BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 73 - 78)

Cyflwyno Blaen Raglen Waith y Pwyllgor (fel y'i chyflwynwyd i'r cyfarfod blaenorol).

# Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr, 2016

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd R. Llewelyn Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd John Griffith (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Alun Mummery, Nicola Roberts, Dafydd Rhys Thomas<br><br>Aelod Lleyg: Mrs Sharon Warnes |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151<br>Rheolwr Archwilio Mewnol (SP)<br>Rheolwr Risg ac Yswiriant (JJ) (ar gyfer eitem 9)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Jim Evans, Peter Rogers, Mr Richard Barker (Aelod Lleyg) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams (Arweinydd), y Cynghorydd H. Eifion Jones (Aelod Portffolio Cyllid), y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Aelod Portffolio Cysgodol - Cyllid), Clare Edge (Rheolwr Archwilio Ariannol - Deloitte), Mr Gwilym Bury (Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad - Swyddfa Archwilio Cymru). |

---

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 21 MEDI, 2016**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 21 Medi, 2016 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

Yn codi o’r cofnodion-

- Cyfeiriodd y Pennaeth Swyddogaeth a'r Swyddog Adran 151 at y mater a oedd yn weddill ar Ddatganiad Cyfrifon 2015/16 a oedd wedi golygu nad oedd y Pwyllgor Archwilio wedi gallu cymeradwyo’r Datganiadau Ariannol yn ei gyfarfod ar 21 Medi, 2016; cadarnhaodd y Swyddog y bu modd i’r Gwasanaeth Cyllid, ar ôl y cyfarfod, ddarparu’r dystiolaeth ategol angenrheidiol i’r archwilwyr ar gyfer yr eitem dan sylw ar y cyfrifon a bod yr archwilwyr yn fodlon gyda'r sicrwydd a ddarparwyd. Cymeradwywyd y Datganiad Cyfrifon wedyn gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn unol â'r awdurdod a ddirprwywyd iddo gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 21 Medi ac fe'i cymeradwywyd wedi hynny gan y Cyngor Sir ar 29 Medi, 2016. Cyhoeddodd yr Archwilwyr farn ddiamod ar y datganiadau cyfrifo ar 30 Medi, 2016.

- Adroddodd y Pennaeth Swyddogaeth a’r Swyddog Adran 151 fod y mater Diogelu Corfforaethol y penderfynodd y Pwyllgor Archwilio, yn ei gyfarfod 21 Medi, ei gyfeirio i’r

DRAFT

Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar sail canfyddiadau adolygiad archwilio mewnol o'r maes hwn, wedi bod yn destun sylw gan banel canlyniad sgriwtini o’r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Adroddodd y Panel yn ffurfiol ar ei gasgliadau a'i argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith ar 17 Hydref 2016.

**3 SAFONAU ARCHWILIO MEWNOL Y SECTOR CYHOEDDUS - CYDYMFFURFIO**

Cyflwynwyd i’w ystyried gan y Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Archwilio Mewnol ynghylch cydymffurfiaeth Gwasanaeth Archwilio Mewnol Ynys Môn â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (SAMSC)

Adroddodd y Rheolwr Archwilio Mewnol ei bod yn ofyniad statudol i Wasanaethau Archwilio Mewnol weithio yn unol ag arferion archwilio priodol. Daeth Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (SAMSC) a Nodyn Gweithredu CIPFA ar gyfer Llywodraeth Leol i rym ar 1 Ebrill, 2013, gan ddisodli Côd Ymarfer CIPFA 2006 ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol. Cynhyrchwyd y safonau newydd gan y Pennwyr Safonau Perthnasol ar gyfer Archwilio Mewnol (RIASS), gan gynnwys y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA), ac maent yn orfodol ac yn berthnasol i wahanol rannau o'r sector cyhoeddus yn y DU, gan gynnwys Llywodraeth Leol. Eu nod yw hybu gwelliant pellach ym mhroffesiynoldeb, ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaeth archwilio mewnol ar draws y sector cyhoeddus.

Dywedodd y Swyddog fod RIASS wedi datblygu rhestr wirio i fodloni'r gofynion a nodir yn SAMSC 1311 a 1312 ar gyfer hunanasesiadau cyfnodol a hunanasesiadau a ddilysir yn allanol fel rhan o'r Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella. Rhaid bodloni pob gofyniad ar y rhestr wirio i ddangos cydymffurfiaeth lawn, cydymffurfiaeth rannol neu ddiffyg cydymffurfiaeth o gwbl â'r Safonau. Yn ogystal, rhaid darparu tystiolaeth ar gyfer pob ymateb, ynghyd â'r rhesymau dros unrhyw gydymffurfiaeth rannol neu ddiffyg cydymffurfiaeth, ynghyd â datganiad o'r mesurau a roddwyd ar waith neu’r camau sydd ar y gweill i ymdrin â nhw. Cwblhawyd y rhestr wirio arferion gorau (Atodiad 1 i'r adroddiad) i ddarparu asesiad blynyddol ar gyfer 2016/17 ac mae'n dangos bod Gwasanaeth Archwilio Mewnol Ynys Môn yn cydymffurfio'n llwyr â 97% o'r 334 o ofynion unigol. Mae crynodeb o ganlyniadau'r rhestr wirio i’w weld yn y tabl ym mharagraff 3.5 o'r adroddiad. Ymhelaethodd y Swyddog ar y chwe maes a nodwyd fel rhai nad ydynt yn cydymffurfio, yn ogystal â'r 5 maes yr aseswyd eu bod yn cydymffurfio'n rhannol yn unol â pharagraff 3.6 o'r adroddiad. Tynnodd y Swyddog sylw hefyd at Safonau 1100, 1110 a 1130 o ran annibyniaeth a gwrthrychedd y mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cydymffurfio â nhw ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd, nid oes gan y Prif Swyddog Archwilio (PSA) unrhyw gyfrifoldebau gweithredol heblaw am waith Archwilio Mewnol. Mae’r hysbyseb ar gyfer y swydd Pennaeth Archwilio a Risg, sef swydd sy’n cyfuno cyfrifoldebau am archwilio, risg ac yswiriant, yn golygu nad yw’r gwasanaeth yn cydymffurfio â'r Safonau ac felly, yn y dyfodol, bydd angen i'r PSA wneud datganiad o ddiddordeb a diffyg cydymffurfiaeth â Safon 1100 (Annibyniaeth a Gwrthrychedd) i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu).

Cyfeiriodd y Swyddog at y Cynllun Gwella a oedd ynghlwm fel Atodiad 2 i'r adroddiad ac a oedd yn nodi'r argymhellion a wnaed i fynd i'r afael â'r meysydd nad ydynt yn cydymffurfio, y camau gweithredu arfaethedig a'r amserlen ar gyfer cwblhau. Adroddir ar gynnydd yn erbyn y camau gweithredu arfaethedig yn Adroddiad Blynyddol 2016/17. Yn unol â'r Safonau, rhaid cynnal asesiad allanol o leiaf bob pum mlynedd gan aseswr annibynnol cymwys neu dîm asesu o'r tu allan i'r sefydliad. Mae’r Asesiad Cymheiriaid ar gyfer Gwasanaethau Archwilio Mewnol Ynys Môn wedi ei raglennu i’w gynnal yn gynnar yn 2017 gan Bennaeth Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ddinbych; adroddir ar ganlyniadau'r asesiad i'r Pwyllgor hwn ym mis Mai, 2017.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth a'r Swyddog Adran 151 ei fod yn fodlon gyda chanlyniadau’r rhestr wirio a’i fod yn hyderus nad oedd gan y meysydd nad ydynt yn cydymffurfio unrhyw oblygiadau i alluoedd gweithredol y Gwasanaeth a’i allu i gwrdd â’r rhan fwyaf o'r Safonau.

Nododd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd gan y Rheolwr Archwilio Mewnol ac roedd yn fodlon gyda chanlyniad cyffredinol yr hunanasesiad a chyda'r dystiolaeth a ddarparwyd i ddangos

DRAFT

bod y meysydd cydymffurfiaeth rannol a'r meysydd nad oeddent yn cydymffurfio o gwbl yn cael sylw neu fod cynlluniau wedi eu gwneud i fynd i'r afael â hwy.

**Penderfynwyd -**

- **Derbyn yr hunanasesiad fel y'i cyflwynwyd a chytuno nad yw'r meysydd sy'n cydymffurfio'n rhannol neu nad ydynt yn cydymffurfio o gwbl yn cael effaith arwyddocaol ar allu'r Gwasanaeth i ddangos cydymffurfiaeth yn gyffredinol.**
- **Cymeradwyo Cynllun Gwella 2016/17.**

**DIM CAM GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

**4 ARCHWILIO ALLANOL - LLYTHYR ARCHWILIO BLYNYDDOL 2015/16**

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor, y Llythyr Archwilio Blynyddol a oedd yn crynhoi'r negeseuon allweddol o'r archwiliad allanol o ddatganiadau ariannol yr Awdurdod ar gyfer 2015/16 **ac fe'i nodwyd ganddo.** 'Roedd y Llythyr yn cadarnhau'r canlynol -

- Bod y Cyngor yn cydymffurfio â'i gyfrifoldebau sy'n ymwneud â chyflwyno adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau.
- Bod gan y Cyngor drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.
- Bod tystysgrif wedi ei chyhoeddi ar 30 Medi, 2016 yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi ei gwblhau
- Nid yw'r gwaith hyd yma ar ardystio hawliadau a ffurflenni grant wedi nodi materion arwyddocaol a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2016/17 neu systemau ariannol allweddol.

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar y gwaith ychwanegol yr oedd y Llythyr yn nodi bod angen ei wneud i gwblhau'r archwiliad ac sydd wedi golygu bod y ffi archwilio yn parhau i fod yn destun trafodaeth ar hyn o bryd. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 nad oedd archwilwyr ariannol newydd y Cyngor, sef Deloitte, yn gyfarwydd â phrosesau, systemau a gweithdrefnau ariannol y Cyngor ar y cychwyn a bu angen gwneud gwaith pellach o ran cytuno ar y ddogfennaeth a'r fethodoleg ar gyfer yr archwiliad. Bu'n rhaid gwneud peth gwaith ychwanegol hefyd i ddatrys y mater a oedd yn weddill fel yr adroddwyd yn flaenorol. Codir ffi safonol ar gyfer yr archwiliad sylfaenol ond mae'r ffi ar gyfer y gwaith ychwanegol y bu'n rhaid ei wneud yn cael ei negydu ar hyn o bryd.

**DIM CAM GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

**5 ARCHWILIAD ALLANOL - TYSTYSGRIF GYDYMFFURFIO**

Cyflwynwyd y Dystysgrif Gydymffurfio gan Swyddfa Archwilio Cymru yn cadarnhau bod Cyngor Sir Ynys Môn wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i gyhoeddi asesiad o'i berfformiad yn 2015/16 cyn 31 Hydref yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dilyn y flwyddyn y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi h.y. cyn 31 Hydref, 2016, **ac fe'i nodwyd gan y Pwyllgor.**

**DIM CAM GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

**6 RHEOLI'R TRYSORLYS**

**6.1** Cyflwynwyd y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2017/18 i'w ystyried gan y Pwyllgor. 'Roedd y Datganiad yn cynnwys y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, y Datganiad Polisi blynyddol ar yr Isafswm Darpariaeth Refeniw , y Datganiad Blynyddol ar y Polisi Rheoli'r Trysorlys a'r Cynllun Dirprwyo ar gyfer Rheoli'r Trysorlys.

DRAFT

Adroddodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151, fel a ganlyn -

- Bod y Datganiad Rheoli'r Trysorlys yn parhau i fod yn sylfaenol yr un fath ag a fabwysiadwyd ar gyfer 2016/17. Nid yw'r sefyllfa o ran yr economi wedi newid yn ei hanfod ac mae cyfraddau llog yn parhau i fod yn isel ac mae hynny'n cyfyngu'r dewisiadau o ran y strategaeth.
- Cynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor yw gyrrwr allweddol y gweithgarwch rheoli'r trysorlys. Bydd y rhaglenni cyffredinol (yn unol â'r tabl yn adran 2 yr adroddiad) yn cael eu cyfyngu i'r hyn sy'n fforddiadwy, o ran gwariant cyfalaf gwirioneddol a'r goblygiadau refeniw h.y. y costau refeniw sy'n deillio o benderfyniadau cyllido cyfalaf.
- Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi gweithredu polisi o osgoi benthyca newydd drwy redeg i lawr y balansau arian sbâr. Mae angen adolygu hyn yn ofalus er mwyn osgoi talu costau benthyca uwch mewn yn y dyfodol pan na fydd yr Awdurdod yn gallu osgoi benthyca newydd i gyllido gwariant cyfalaf, e.e. i ariannu cyfraniad y Cyngor tuag at y rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a / neu ailgyllido dyled sy'n aeddfedu.
- Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn parhau i fenthyca llai.  Mae hyn yn golygu nad yw'r angen i gael benthyg cyfalaf (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf) wedi cael ei ariannu'n llawn trwy fenthyca gan ei fod yn defnyddio arian o'i gronfeydd wrth gefn, balansau a llif arian fel mesur dros dro. Mae'r dull hwn o weithredu yn un doeth gan fod yr elw a geir o fuddsoddiadau yn isel a'r risg gwrthbarti yn uchel, a pharheir i ddilyn y dull hwn o weithredu lle bo'n briodol.
- Mae'r amgylchiadau cyfredol yn dangos bod mabwysiadu ymagwedd hyblyg o ran y dewis rhwng benthyca mewnol a benthyca allanol. 'Roedd manteision ac anfanteision y benthyca mewnol a'r benthycal allanol wedi'u nodi yn rhan 3.3.1 o'r adroddiad. Bydd y Swyddog Adran 151 yn monitro cyfraddau llog ac yn mabwysiadu dull pragmatig a fydd yn ymateb i amgylchiadau fel y byddant yn newid, gan roi  gwybod am unrhyw benderfyniad i'r corff gwneud penderfyniadau priodol ar y cyfle cyntaf.
- Ni fydd y Cyngor yn benthyca mwy nag y mae ei angen, nac yn benthyca er mwyn paratoi i gwrdd ag angen, dim ond i allu elwa o fuddsoddi'r symiau ychwanegol a fenthycwyd.
- Gan y bydd y cyfraddau benthyca tymor byr gryn dipyn yn rhatach na'r cyfraddau sefydlog tymor hir, efallai y bydd cyfleoedd posib i greu arbedion drwy newid o ddyled tymor hir i ddyled tymor byr. Adroddir ar yr holl weithgarwch aildrefnu dyledion i'r Pwyllgor Archwilio. Fodd bynnag, mae adolygiad diweddar wedi amlygu y byddai'n costio mwy i'r Cyngor aildrefnu dyledion nag y byddai'n arbed mewn llog sy'n ddyledus yn sgil y tâl a godir gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus am ad-dalu'n gynnar.
- Mae strategaeth fuddsoddi'r Cyngor a'i flaenoriaethau yn seiliedig ar ddiogelwch yn gyntaf, hylifedd yn ail ac elw'n drydydd. Bydd y Swyddog Adran 151 yn cynnal rhestr gwrthbartion yn unol â'r meini prawf a nodir yn Atodiad 6 o'r adroddiad a bydd yn adolygu'r meini prawf ac yn eu cyflwyno i'r Cyngor i'w cymeradwyo fel y bo angen. 'Roedd y polisi statws credyd wedi'i nodi yn rhan 4.2 yr adroddiad.
- Oherwydd y rhagolygon y bydd elw o fuddsoddiadau yn debygol o aros yn isel yn ystod 2017/18 a thu hwnt, yr unig newid y bwriedir ei wneud i egwyddorion a pholisïau craidd Strategaeth Rheoli Trysorlys y flwyddyn flaenorol yw cynnwys Cronfeydd Marchnad Arian fel opsiwn buddsoddi ychwanegol i'r Meini Prawf Gwrthbarti er mwyn creu opsiynau diogel ychwanegol ar gyfer buddsoddiadau'r Cyngor.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a gwnaed y pwyntiau canlynol -

- Nododd  a chefnogodd y Pwyllgor drefn yr Awdurdod o fabwysiadu ymagwedd geidwadol yn gyffredinol tuag at reoli'r trysorlys, yn enwedig o ystyried holl ansicrwydd yr amgylchedd economaidd.
- Nododd y Pwyllgor y rhagwelir y byddai costau benthyca ar gyfer 2016/17 yn £6m, sef £4m ar gyfer y Gronfa Gyffredinol a £2m ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai. Gofynnodd y Pwyllgor, o gofio'r holl ansicrwydd ynghylch y rhagolygon ar gyfer cyfraddau llog fel y nodir yn rhan 3.2 o'r adroddiad, a oedd yn ddoeth i fod yn meddwl am gymryd benthyciadau pellach. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 ei bod yn debygol  y byddai'n rhaid i'r Cyngor ymrwymo i fenthyca i ariannu ei ran ef o Raglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain. Er

bod y sefyllfa ar gyfer cymryd benthyciadau yn ffafriol ar hyn o bryd oherwydd y cyfraddau llog isel, ni fydd yr Awdurdod yn benthyca dim ond i ailfuddsoddi a manteisio ar y cyfraddau llog isel gan y byddai'r elw yn debygol o fod yn llai na'r gost o fenthyca. Os bydd arwyddion fod y cyfraddau llog yn mynd i godi efallai y bydd yr Awdurdod yn ystyried benthyca bryd hynny i wneud y mwyaf o'r cyfraddau llog isel. Fodd bynnag, nid yw ymgynghorwyr y Cyngor yn rhagweld cynnydd mewn cyfraddau llog yn y tymor canol, felly ni fydd y strategaeth yn newid.

- Nododd y Pwyllgor fod benthyca allanol y Cyngor yn £110.7m ar 10 Tachwedd, sy'n sylweddol uwch na'r sefyllfa ychydig flynyddoedd yn ôl pan oedd oddeutu £89m. Ceisiodd y Pwyllgor sicrwydd y bydd y Cyngor yn gallu ad-dalu'r ddyled pe bai'r cyfraddau llog yn codi. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth a'r Swyddog Adran 151 (Adnoddau) bod y rhan fwyaf o fenthyciadau'r Awdurdod ar hyn o bryd ar gyfradd sefydlog felly mae'n gwybod faint y mae angen iddo ad-dalu – mae cymryd benthyciadau ar gyfradd isel sefydlog o fantais ac mae'n cynnig rhywfaint o ddiogelwch os bydd cyfraddau yn codi yn y dyfodol; pe bai'r cyfraddau llog yn uchel, yna byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i symud i gyfradd amrywiol. Mae'r cynnydd o ran benthyca net y Cyngor i'w briodoli'n bennaf i brynu allan o'r system gymhorthdal ar gyfer y CRT (tua £21m).Gan fod y Cyngor yn buddsoddi yn ei asedau drwy'r rhaglen gyfalaf, bydd angen benthyca oherwydd mai dyna sut mae'r rhaglen gyfalaf yn cael ei chyllido'n rhannol. Strategaeth y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y flwyddyn nesaf yw cyfyngu'r gyllideb gyfalaf i'r hyn sy'n gynaliadwy trwy fenthyca â chymorth h.y. benthyciadau sy'n cael eu hariannu drwy'r setliad (ar wahân i'r prosiect Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain y bydd angen lefel o fenthyca digymorth ar ei gyfer).Cadarnhaodd y Swyddog bod unrhyw fenthyciadau sy'n gysylltiedig â'r CRT yn cael eu hariannu gan arian CRT h.y. rhenti.
- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar hanes benthyciadau'r Awdurdod o gymharu ag awdurdodau eraill. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) fod yr Awdurdod yn Ynys Môn wedi bod yn gymharol geidwadol yn ei ymagwedd tuag at fenthyca. Yn ogystal, nid oedd wedi etifeddu unrhyw ddyled gan yr awdurdod cyn ad-drefnu llywodraeth leol yn 1996.

**Penderfynwyd -**

- **Nodi cynnwys yr adroddiad eglurhaol.**
- **Cymeradwyo'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (gan gynnwys y Dangosyddion Darbodus a'r Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys yn Atodiad A) ar gyfer 2017/18 a**
- **Anfon y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys i'r Pwyllgor Gwaith heb wneud sylwadau ychwanegol arno.**

**DIM CAM GWEITHREDU PELLACH**

**6.2** Cyflwynwyd yr Adroddiad Canol Blwyddyn ar Reoli'r Trysorlys i'w ystyried gan y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad economaidd ar gyfer rhan gyntaf blwyddyn ariannol 2016/17; 'roedd yn adolygu'r prif strategaethau buddsoddi a benthyca hanner ffordd drwy'r flwyddyn yn ogystal â gweithgarwch ers Chwarter 2, a hefyd yn bwrw golwg ar y flwyddyn i ddod.

Adroddodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 fod yr adroddiad yn dangos bod yr Awdurdod wedi benthyg ychydig yn llai na'r hyn a broffiliwyd yn y strategaeth ar ddechrau'r flwyddyn. Gellir priodoli hyn i'r ffaith nad oedd rhai prosiectau wedi cychwyn, arian grant cyfalaf heb ei wario a rhywfaint o lithriad ar wariant CRT. Felly mae'r gwariant cyfalaf wedi bod yn llai ac ni chymerwyd unrhyw fenthyciadau ychwanegol. Mae'r Awdurdod, yn hytrach wedi defnyddio cyllid yn fewnol; ni ragwelir y bydd unrhyw fenthyca ychwanegol o hyn tan ddiwedd y flwyddyn. Hyd yma mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'r holl ddangosyddion darbodus perthnasol o fewn y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2016/17. Mae Atodiad 5 yr adroddiad hefyd yn darparu crynodeb o'r gweithgarwch buddsoddi hyd yn hyn eleni. Cadarnhaodd y Swyddog ei fod yn fodlon â'r sefyllfa fel y'i cyflwynwyd.

Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ac 'roedd yn fodlon bod y gweithgarwch rheoli'r trysorlys, yn y cyfnod hwn hanner ffordd drwy flwyddyn ariannol 2016/17, yn cyflawni yn unol â'r strategaeth

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a'i anfon ymlaen i'r Pwyllgor Gwaith heb sylwadau ychwanegol.**

**DIM CAM GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

**6.3** Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 yn ymgorffori Arferion Rheoli Trysorlys yr Awdurdod. Roedd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor i sicrhau bod y Cyngor yn dilyn arferion gorau'r Côd Ymarfer ar gyfer Rheoli'r Trysorlys gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) sydd yn argymell bod y Cyngor yn dogfennu ei weithdrefnau rheoli trysorlys yn ffurfiol fel Arferion Rheoli'r Trysorlys (ARhT ) a'u bod yn cael eu monitro wedyn.

**Penderfynwyd -**

- **Nodi cynnwys yr adroddiad.**
- **Cymeradwyo'r Arferion Rheoli'r Trysorlys fel y nodwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad.**

**DIM CAM GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

## 7 BLAENRAGLEN WAITH Y GWASANAETH ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Archwilio Mewnol yn ymgorffori Blaenraglen Waith ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar gyfer gweddill 2016/17 a 2017/18.

Dywedodd y Rheolwr Archwilio Mewnol y bwriedir i'r Flaenraglen Waith fod yn gofnod o bryderon y Pwyllgor Archwilio ac iddi sicrhau bod y cynnydd a wneir i fynd i'r afael â'r pryderon hynny yn cael sylw rheolaidd mewn modd cynlluniedig gan y Pwyllgor.

Cydnabu'r Pwyllgor fod y flaenraglen waith yn darparu fframwaith da ar gyfer symud ymlaen o ran materion y mae wedi eu hamlygu o'r blaen ac unrhyw bryderon newydd y byddai'n hoffi eu cadw mewn golwg hyd nes y gellir eu cau'n foddhaol.

**Penderfynwyd -**

- **Cymeradwyo'r flaenraglen waith arfaethedig ar gyfer gweddill 2016/17 a 2017/18 fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad.**
- **Adrodd ar unrhyw newidiadau i'r rhaglen fel eitem safonol ar raglen bob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.**

**DIM CAM GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

## 8 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Penderfynwyd dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail ei bod yn golygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12 o'r Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd a gyflwynwyd.

## 9 COFRESTR RISG GORFFORAETHOL

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 yn ymgorffori'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ddiweddaraf hyd at ddiwedd Chwarter 1 2016/17

Adroddodd y Rheolwr Risg ac Yswiriant ar yr ystyriaethau a ganlyn -

- Y risgiau hynny yr ystyrir eu bod y risgiau uchaf i'r Cyngor.
- Risgiau sydd naill ai wedi eu huwchgyfeirio neu eu hisgyfeirio yn ystod y cyfnod ers yr adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor ym mis Mai, 2016.

DRAFT

- Unrhyw risgiau sy'n newydd i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a'r rhesymau dros eu cynnwys ynddi.

Nododd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd a gwnaeth y pwyntiau canlynol:

- Nododd y Pwyllgor y byddai'n ddefnyddiol pe bai cyflwyno'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cael ei gydamseru'n well gydag amserlen cyfarfodydd y Pwyllgor.
- Nododd y Pwyllgor, er bod modd rhoi sylw i rai risgiau o fewn amserlen benodol, fod eraill yn rhai parhaus ac mae angen eu rheoli dros gyfnod o amser. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch am ba mor hir yr oedd y risgiau sy'n goch ar y rhaglen wedi bod yn goch; holodd a oedd modd eu trin ac am yr amserlen ar gyfer gwneud hynny. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod unrhyw lithriad ar gamau gweithredu sydd eu hangen i fynd i'r afael â risg benodol yn cael ei adrodd i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a fydd yn dilyn y mater i fyny wedyn. Nid yw hyn yn cael ei gofnodi'n ffurfiol ar y gofrestr a hynny mewn ymdrech i wneud y broses adrodd mor glir â phosibl - beirniadwyd y gofrestr yn y gorffennol am fod yn rhy "brysur" i allu ei ddeall yn hawdd.
- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar risgiau gwasanaeth. Hysbyswyd y Pwyllgor fod risgiau gwasanaeth yn y categori ambr neu goch yn cael eu cyfeirio i'w hystyried gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar gyfer eu huwchgyfeirio o bosib i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad, nodi ei gynnwys a chymryd sicrwydd bod y risgiau i nodau ac amcanion y Cyngor yn cael eu cydnabod a'u rheoli gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth.**

**DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

**Y Cynghorydd R. Llewelyn Jones**
**Cadeirydd**

DRAFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| ADRODDIAD I | PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHIANT |
| DYDDIAD | 9 CHWEFROR 2017 |
| PWNC | DIWEDDARIAD AR ADRODDIAD YR ASIANTAETH SAFONAU BWYD AR Y GWASANAETH GORFODAETH CYFRAITH BWYD A BWYD ANIFEILAID YN YNYS MÔN |
| SWYDDOG ARWEINIOL | PRIF SWYDDOG GWARCHOD Y CYHOEDD – DAVID RILEY |
| SWYDDOG CYSWLLT | PRIF SWYDDOG GWARCHOD Y CYHOEDD – DAVID RILEY |
| Natur a rheswm dros adrodd – Cyflwynwyd adroddiad yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar y Gwasanaeth Gorfodaeth Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid yn Ynys Môn yn dilyn archwiliad a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2014. Adroddwyd ar nifer o gasgliadau a arweiniodd at gyfres o argymhellion gan dîm archwilio'r Asiantaeth Safonau Bwyd. Ymatebwyd i'r rhain drwy Gynllun Gweithredu yn manylu ar y sylw a fyddai'n cael ei roddi i bob argymhelliad. Dychwelodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar 15 ac 16 Medi 2016 i asesu'r cynnydd a wnaed gan y Gwasanaeth yn erbyn y Cynllun Gweithredu. Hwn yw'r adroddiad ar yr ymweliad diweddaraf gan yr Asiantaeth, gan gynnwys y Cynllun Gweithredu diweddaraf. | |

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1 Mae gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) y grym i osod safonau, monitro ac archwilio gwasanaeth gorfodaeth cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid awdurdodau lleol, a hynny'n unol â Deddf Safonau Bwyd 1999 a'r Rheoliadau Swyddogol ar gyfer Rheoli Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Cymru) 2009. Cynhaliwyd yr archwiliad o'r gwasanaeth bwyd a bwyd anifeiliaid yng Nghyngor Sir Ynys Môn dan Adran 12(4) y Deddf a Rheoliad 7 y Rheoliadau.

1.2 Cynhaliwyd yr archwiliad gan yr ASB yn ystod yr wythnos yn cychwyn ar 14 Gorffennaf a pharhaodd am 5 niwrnod. Bu'r ASB yn asesu cydymffurfiaeth yr awdurdod gyda'r "Safon". Mae'r Safon yn rhan o Gytundeb Fframwaith yr ASB gydag awdurdodau lleol. Mae'r Cytundeb Fframwaith ar gael ar wefan yr ASB yn : www.food.gov.uk/enforcement/enforcework/frameagree

1.3 Roedd yr archwiliad yn cynnwys rhoi sylw i drefniadau Ynys Môn ar gyfer darparu gwasanaethau glendid bwyd, safonau bwyd a gorfodi'r gyfraith bwyd anifeiliaid. Adain Gwarchod y Cyhoedd yn yr Adran Gynllunio a Gwarchod y Cyhoedd oedd yn gyfrifol am y swyddogaethau hyn ar y pryd. 'Roedd y gwaith yn cael ei wneud gan y timau Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach.

1.4 Derbyniodd yr awdurdod yr adroddiad ffurfiol ar 21 Gorffennaf 2015 gan gynnwys y Cynllun Gweithredu .

https://www.food.gov.uk/sites/default/files/angleseyaudit2014pdf

1.5 Ailymwelodd y tîm ASB â’r Awdurdod ar 15 ac 16 Medi er mwyn asesu’r cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion a’r Cynllun Gweithredu y cytunwyd arno ym mis Gorffennaf 2015.

## 2. CYNLLUN GWEITHREDU’R AWDURDOD

2.1 Gellir crynhoi prif ganfyddiadau’r archwiliad gwreiddiol fel a ganlyn:

- Roedd yr awdurdod yn ddiweddar wedi adolygu ei strwythur rheoli er mwyn rhoi sylw i’r gostyngiad a ragwelwyd yng nghyllideb yr Adain Gwarchod y Cyhoedd am y cyfnod 2013-16.
- Roedd yr awdurdod wedi datblygu Cynllun Gwasanaeth Bwyd ar gyfer 2014/15. Nid oedd y cynllun hwn yn rhoi sylw llawn i’r nifer sylweddol o fusnesau yr oedd angen cynnal archwiliadau ynddynt o ran glendid bwyd, safonau a bwyd anifeiliaid. Mae angen darparu cymhariaeth o’r adnoddau staffio yn erbyn yr adnoddau staffio sydd ar gael i’r awdurdod er mwyn sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i ddarparu lefel briodol o wasanaeth.
- Cadarnhaodd gwaith gwirio fod data-basau'r sefydliadau bwyd yn gywir yn gyffredinol a bod yr awdurdod wedi gallu anfon manylion electronig o System Monitro Gorfodaeth yr Awdurdod Lleol (LAEMS) i’r ASB.
- Nid oedd y trefniadau a nodwyd yn y Cynllun Gwasanaeth ar gyfer cyflawni rhaglen o archwiliadau cynlluniedig ar gyfer glendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid yn cwrdd â gofynion Codau Ymddygiad y Gyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid. Ar adeg yr archwiliad, roedd nifer sylweddol o archwiliadau nad oeddynt wedi cael eu cynnal.
- O ran safonau bwyd a rheolaethau swyddogol ar gyfer bwyd anifeiliaid, nid oedd modd bob amser i’r archwilwyr sefydlu a oedd busnesau wedi cael archwiliadau ar yr adegau cywir oherwydd nid oedd y cynllun sgorio risg a ddefnyddiwyd yn cyfateb i hwnnw a nodwyd yn Codau Ymddygiad ar gyfer y Gyfraith Bwyd a Phorthiant. Roedd nifer sylweddol o sefydliadau bwyd anifeiliaid wedi cael sgôr risg heb archwiliad. ‘Roedd hynny’n golygu, i bob pwrpas, ei bod yn hen bryd i nifer sylweddol o sefydliadau gael ymyriad.
- Yn gyffredinol, mae cofnodiadau glendid bwyd wedi cael eu cynnal a’u cadw’n ddigonol. Nid oedd cofnodiadau Safonau Bwyd a Bwyd anifeiliaid yn cael eu cadw’n ddigonol ac ‘roedd nifer yn aml yn anghyflawn. Roedd hyn yn gwneud monitro mewnol effeithiol yn anodd a gall hyn gael effaith ar allu swyddogion i weithredu fesul cam.
- Roedd yr awdurdod wedi bod yn rhagweithiol o ran darparu cyngor a chanllawiau i fusnesau bwyd a bwyd anifeiliaid a hyrwyddo diogelwch bwyd gan ddefnyddio amryw o gyfryngau a digwyddiadau cyhoeddus.
- Roedd rhywfaint o dystiolaeth o waith monitro mewnol ar gyfer gwasanaethau glendid bwyd, safonau a bwyd anifeiliaid. Fodd bynnag, roedd angen eu datblygu ymhellach fel y gallai’r awdurdod ddilysu ei gydymffurfiaeth â holl elfennau’r Safon, y Codau Ymddygiad perthnasol, canllawiau a gyhoeddwyd yn ganolog a pholisïau a gweithdrefnau’r awdurdod ei hun.

2.2 O ganlyniad i’r casgliadau, cyflwynodd y gwasanaeth Gynllun Gweithredu yn rhoi sylw i’r holl argymhellion manwl yn adroddiad yr ASB. Dechreuodd y gwaith i fynd i'r afael â'r argymhellion, yn dilyn y sesiwn adborth anffurfiol a ddarparwyd gan archwilwyr yr ASB, ar 18 Gorffennaf 2014. Mae'r Cynllun Gweithredu wedi bod yn ddogfen 'fyw' ac mae wedi

cael ei diweddaru'n rheolaidd wrth i'r camau a gytunwyd gael eu cwblhau.

2.3 ‘Roedd y rhan fwyaf o'r argymhellion yn weithdrefnol eu naws. Fodd bynnag, erys pryder o ran yr angen i gael adnoddau staffio digonol i gynnal yr holl archwiliadau Glendid Bwyd a Safonau Bwyd angenrheidiol. Dengys dadansoddiad o'r baich gwaith fod bwlch o 1.5 o swyddogion amser llawn sef, un swyddog amser llawn i gynnal Archwiliadau Diogelwch Bwyd a 0.5 ar gyfer Archwiliadau Safonau Bwyd. Cynhelir Archwiliadau Glendid Bwyd ar y cyd ar draws Gogledd Cymru ac nid ydynt bellach yn dod o dan yr archwiliad gwreiddiol.

2.4 Mae'r gwasanaeth wedi bod trwy broses o drawsnewid ac fe ailstrwythurwyd y timau Gwarchod y Cyhoedd yn sylweddol ym mis Ebrill 2016 er mwyn mynd i'r afael â'r heriau a nodwyd. Mae'r newidiadau a wnaed yn dal i wreiddio ac er bod adnodd ychwanegol ar gael bellach i'r tîm Bwyd newydd mae yna waith wedi cronni a bydd angen cynnal yr archwiliadau hyn er mwyn dal i fyny.

2.5 Mae'r gwaith wedi cronni oherwydd absenoldebau staff hanesyddol nad yw'r gwasanaeth wedi gallu eu lliniaru trwy ddefnyddio staff dros dro. Bu'n amhosib defnyddio staff dros dro neu hyd yn oed staff asiantaeth dros y deunaw mis diwethaf. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn dal i fwriadu defnyddio adnodd staff ychwanegol am gyfnod o 12 mis i ddelio â'r baich gwaith sydd wedi cronni. Telir am yr adnodd o gyllideb y gwasanaeth ei hun. Ystyrir y bydd modd dal i fyny gyda'r gwaith archwilio yn ystod y 12 mis hwn ac y bydd y staff o fewn y tîm yn gallu ymdopi yn y dyfodol â'r galw ar yr amod na fydd y galw'n cynyddu yn y cyfamser.

2.6 Hwn yw'r canlyniad anochel ar adeg pan fo cyllidebau'n lleihau. Pan fo cynnydd yn y galw am archwiliadau mae'r gwaith dydd i ddydd yn disgyn ar ôl ac yn cronni. Nid oes unrhyw wydnwch wedi ei adeiladu i mewn i'r adnoddau staff cyfredol i allu ymdopi. Y camau lliniaru yw sicrhau y blaenoriaethir y defnydd a wneir o staff mewn ffordd sy'n seiliedig ar dystiolaeth a bod gennym weithlu hyblyg y gellir ei ddefnyddio yn y meysydd lle mae'r angen mwyaf. Mae'n bwysig ein bod yn cyfiawnhau'r hyn yr ydym yn ei wneud a hefyd yr hyn na allwn ei wneud i'r cyhoedd a'r busnesau yn Ynys Môn, yn ogystal â'r cyrff hynny sy'n craffu ar ein gwaith.

## 3. AILYMWELIAD YR ASIANTAETH SAFONAU BWYD

3.1 Ar 15 ac 16 Medi ailymwelodd yr ASB i asesu'n ffurfiol y cynnydd a wnaed yn erbyn yr adroddiad llawn. Roedd hyn yn cynnwys ymweld â'r safle ac maent wedi cynhyrchu adroddiad ar ffurf Cynllun Gweithredu wedi'i ddiweddaru. Gellir ei weld yn: https://www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring/2014/auditreports/isle-anglesey/angleseyaudit2014-0

3.2 Mae'r adroddiad yn dangos bod cynnydd da wedi ei wneud gyda'r rhan fwyaf o'r camau y cytunwyd arnynt. Mae'r rhan fwyaf wedi eu "cwblhau" (22) neu gwnaed "cynnydd da" (10) . Dim ond ar gyfer 4 y nodwyd “cynnydd cyfyngedig” ac nid oes yr un lle na chymerwyd unrhyw gamau o gwbl. Ni chynhaliwyd prawf ar 4 eitem gan na fu unrhyw weithgaredd yn y meysydd gwaith penodol hynny.

3.3 Y 4 eitem sydd angen y sylw mwyaf yw:

I. Sicrhau bod y Cynllun Darparu Gwasanaeth yn cael ei ddatblygu ymhellach yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth.
II. Sicrhau bod swyddogion yn cofnodi eu hasesiad o fwyd wedi'i fewnforio.

III. Sicrhau y gweithredir cynllun graddio risg ymyriadau safonau bwyd sydd yn unol â'r cynllun a sefydlwyd o dan atodiad V y Côd Ymarfer ar gyfer Cyfraith Bwyd.
IV. Sicrhau bod adroddiadau ar archwiliadau bwyd yn unol ag Atodiad 6 y Côd Ymarfer ar gyfer Cyfraith Bwyd a'u bod yn cynnwys y canlynol; Meysydd a archwiliwyd, y person a welwyd, enw'r Gweithredwr Busnes Bwyd, manylion uwch swyddogion, cyfeiriad yr ALl, teitl y swyddog archwilio ac amserlenni ar gyfer cydymffurfio.

3.4 Mae'r holl eitemau sy'n weddill yn cael sylw, yn arbennig ffurf y Cynllun Gwasanaeth. Bydd hyn wedi cael sylw erbyn cyhoeddi'r Cynllun Bwyd nesaf ym mis Ebrill 2017. Mae'r eitemau eraill yn ymwneud â'r wybodaeth ychwanegol y mae angen ei chofnodi yn ystod archwiliadau ac mae'r rhain eisoes wedi cael sylw.

3.5 Mae'r holl eitemau eraill sydd ar ôl yn cael sylw ac fe'u cwblheir erbyn Ebrill 2017. Mae'r ASB wedi dweud nad yw'n bwriadu dychwelyd i'r Awdurdod i roi sylw penodol i'r camau gweithredu sy'n weddill ond byddant yn cael sylw mewn unrhyw ymweliadau posib â'r Awdurdod yn y dyfodol.

**4. CASGLIADAU**

4.1 'Roedd Adroddiad yr ASB ar y Gwasanaeth Gorfodi'r Gyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid ar Ynys Môn yn dwyn sylw at y meysydd hynny y mae'n rhaid i'r awdurdod eu gwella er mwyn cwrdd â'r gofynion ar awdurdodau lleol i gwrdd â'r Safon ar gyfer Rheolaethau Swyddogol mewn perthynas â Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

4.2 Mae'r awdurdod wedi cynhyrchu Cynllun Gweithredu i symud ymlaen gyda'r gwelliannau hyn ac fe'i cadarnhawyd gan yr ASB ym mis Gorffennaf 2015.

4.3 Mae'r Cynllun Gweithredu diweddaraf a luniwyd yn dilyn yr ail ymweliad ym Medi 2016 yn dangos fod cynnydd da wedi cael ei wneud hyd yma ac mae'r gwasanaeth yn rhagweld y gall gyflawni'r holl gamau gweithredu erbyn Ebrill 2017.

4.4 Mae'r gwasanaeth gorfodaeth Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid bellach yn cael ei ddarparu ar sail gydweithredol ar draws Gogledd Cymru ac mae'n cwrdd â'r argymhellion a nodwyd yn adroddiad yr ASB.

4.5 Mae diffyg adnoddau staffio i gwrdd â'r targed o ran nifer yr archwiliadau Glendid Bwyd a Safonau Bwyd a gynhelir yn parhau i achosi pryder yn erbyn cyllideb sy'n gostwng ar gyfer y gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd. Fodd bynnag, mae camau'n cael eu cymryd i ddelio â'r baich gwaith sydd wedi cronni trwy gyflogi Arolygydd Glendid Bwyd am gyfnod dros dro.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHIANT** |
| **DYDDIAD:** | **9 CHWEFROR 2017** |
| **PWNC:** | **ADRODDIAD CYNNYDD AR ARCHWILIO MEWNOL 1 EBRILL 2016 TO 31 RHAGFYR 2016** |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | **PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL – MIKE HALSTEAD** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **RHEOLWR ARCHWILIO - SIONED PARRY** |

**Natur a rheswm am adrodd –** i gydymffurfio â gofynion Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus y DU a Safonau DU CIPFA a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2013, lle mae gofyn i'r Pennaeth Archwilio adrodd yn gyfnodol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant ar berfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol mewn perthynas â Chynllun Archwilio 2016/17 ac ystyried mesurau perfformiad Archwilio Mewnol yn chwarterol.

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Cynhyrchir yr adroddiad hwn i gydymffurfio â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant, sy'n gofyn i'r Pwyllgor adolygu cynnydd wrth gyflawni'r Cynllun Archwilio Mewnol a'r Strategaeth Archwilio Mewnol trwy dderbyn ac ystyried adroddiadau cynnydd chwarterol.

1.2 Mae'r adroddiad yn dadansoddi perfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol am y cyfnod 1 Ebrill 2016 hyd at 31 Rhagfyr 2016 a chaiff ei gefnogi gan **Atodiadau A i G** sy'n rhoi manylion am y cynnydd yn erbyn targedau perfformiad ar gyfer 2016/17 a'r gwaith a wnaed gan y Gwasanaeth yn ystod y cyfnod hwn.

1.3 Cyflwynwyd Cynllun Strategol diwygiedig am y cyfnod 3 blynedd 2016/17 hyd at 2018/19 i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant ar 15 Mawrth 2016 ac fe'i cymeradwywyd ganddo. Mae Cynllun Gweithredol 2016/17 sy'n deillio o hynny yn darparu cynllun mwy cytbwys; sy'n galluogi medru archwilio'n ehangach ac archwilio nifer o feysydd nad ydynt wedi bod yn destun adolygiad archwilio yn y blynyddoedd diweddar.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1 Gofynnir i'r Aelodau ystyried a darparu sylwadau ar y sicrwydd a ddarperir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant yn yr adroddiad hwn yng nghyswllt y prosesau rheolaethau mewnol, rheoli risg a llywodraethu corfforaethol sydd ar waith i gyflawni amcanion yr Awdurdod.

## 3. GWYBODAETH GEFNDIROL

### 3.1 Perfformiad Archwilio Mewnol 1 Ebrill 2016 hyd at 31 Rhagfyr 16

3.1.1 Cwblhawyd dadansoddiad o waith a pherfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol am y cyfnod 1 Ebrill 2016 hyd at 31 Rhagfyr 2016. Roedd 6 o brosiectau archwilio ar gyfer 2015/16 oedd yn amrywio o ran cymhlethdod nad oedd wedi'u cyflawni na'u cyflwyno erbyn 31 Mawrth 2016, sy'n golygu bod gwaith yn mynd rhagddo arnynt fel a ganlyn:

- Gwiriad Stoc DLO
- Diogelu
- Gorchmynion Llys Plant
- Dilyniant: Argymhellion Archwiliad Mewnol Ysgolion
- Rheolaethau Allweddol Budd Daliadau Tai
- Dilyniant: Mân-ddyledwyr

3.1.2 Treuliwyd **111.55 diwrnod** ar waith oedd yn mynd rhagddo yn ystod 2016/17 hyd at ddiwedd mis Rhagfyr, ac fe ddaw'r dyddiau hyn o'r ddarpariaeth oedd yn weddill ar gyfer gwaith o'r fath yn y flwyddyn flaenorol.

**3.1.3** Mae atodlen o dargedau perfformiad am y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2016 ynghlwm yn **Atodiad A.**

## 3.2 Gwaith Ychwanegol heb ei Gynllunio

3.2.1 Perfformiwyd 2 archwiliad ychwanegol oedd heb ei gynllunio yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2016 hyd at 31 Rhagfyr 2016. Treuliwyd **10.36 ddiwrnod** o waith arno ac mae dogfen yn egluro hyn ynghlwm yn **Atodiad B.**

## 3.3 Datganiad o Sicrwydd

3.3.1 Mae gofyn i'r Pennaeth Archwilio ddarparu barn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant ar ba mor ddigonol ac effeithiol yw systemau llywodraethiant a rheoli risg yr Awdurdod ar y cyfan ynghyd â'i amgylchedd rheolaethau mewnol. Mae hyn yn cydymffurfio â gofynion Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus a Nodyn Cymhwyso Llywodraeth Leol CIPFA. Y farn gyffredinol yw un o'r mesurau sicrwydd a ddefnyddir gan yr Awdurdod wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol sy'n ofynnol dan y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio.

3.3.2 Mae'r barnau archwilio ar bob un o'r aseiniadau a wnaed yn ystod y flwyddyn hyd yma wedi cael eu categoreiddio fel a ganlyn:

- Sicrwydd Sylweddol
- Sicrwydd Rhesymol
- Sicrwydd Cyfyngedig
- Sicrwydd Isel Iawn

3.3.3. I gefnogi'r farn archwilio, mae'r cyfraddau risg yr argymhellion Archwilio Fewnol wedi cael eu cysoni gyda Matrics Rheoli Risg yr Awdurdod gan felly gyfnerthu'r broses rheoli risg ymhellach yn yr Awdurdod. Mae diffiniadau o gyfraddau risg yr argymhellion a'r farn archwilio ynghlwm yn **Atodiad C.**

3.3.4 Mae crynodeb o'r holl asesiadau archwilio a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn hyd yma gan gynnwys gwaith sy'n mynd rhagddo o 2015/16 ynghlwm yn **Atodiad D.** Mae'r atodlen yn crynhoi'r farn archwilio a'r argymhellion yng nghyswllt pob un maes a adolygwyd a bydd yn ffurfio'r sail ar gyfer y farn yn y Datganiad Sicrwydd Blynyddol ynglŷn â pha mor ddigonol ac effeithiol yw fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaethau mewnol yr Awdurdod ar y cyfan ar gyfer 2016/17. Ers 1 Ebrill 2016, mae 6 adroddiad terfynol wedi cael eu cyflwyno o Gynllun Gweithredol Archwilio Mewnol 2015/16 ac 12 o Gynllun Gweithredol 2016/17.

3.3.5 Aseswyd dau o'r archwiliadau cynlluniedig a gwblhawyd yn ystod y chwarter cyntaf fel rhai nad oeddynt yn darparu lefelau cadarnhaol o sicrwydd. Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Rhagfyr 2016, aseswyd yr archwiliadau mewn perthynas â Gorchmynion Llys Gofal Plant o dan yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus a Tai Gofal Ychwanegol – Trefniadau Comisiynu fel rhai a oedd yn rhoddi lefel Gyfyngedig o Sicrwydd. Ceir manylion am yr archwiliadau hyn yn **Atodiad D.**

### 3.4 Dilyn i fyny ar Archwiliadau a Thracio Argymhellion

3.4.1 Mae Safonau Archwilio Mewnol y DU yn gofyn i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol ddilyn y cynnydd a wneir gyda chamau gweithredu a gymerir gan reolwyr sy'n codi o'r aseiniadau. Y rheolwyr sy'n gyfrifol am weithredu argymhellion archwilio y cytunwyd arnynt ac nid Archwilio Mewnol. Cyfrifoldeb Archwilio Mewnol yw adrodd ar y statws.

3.4.2 Mae'r Broses Dilyn i Fyny a Monitro a amlinellir mewn adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant ar 8 Rhagfyr 2015 wedi cael ei chyflwyno er mwyn gwella trefniadau monitro ac adrodd ar gynnydd mewn perthynas â gweithredu argymhellion y cytunwyd arnynt.


3.4.3 Mae **Tabl 1** isod yn crynhoi statws gweithredu'r argymhellion ar 31 Rhagfyr 2016:

| **Tabl – 1 Statws argymehllion y cytunwyd arnynt ar 31 Rhagfyr 2016** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Statws** | **Uchel** | **Canolig** | **Cyfanswm** | **%** |
| Cwblhawyd | 65 | 257 | 327 | 82% |
| Yn Weddill | 20 | 58 | 73 | 18% |
| Cyfanswm | 85 | 315 | 400 | 100% |

3.4.4 Mae'r argymhellion ar hyn o bryd wedi eu categoreiddio fel rhai coch, ambr, melyn neu gwyrdd yn unol â'r risg ganfyddedig fel yr amlinellir yn **Atodiad C.** Nid yw Archwilio Mewnol yn mynd ar ôl yr argymhellion gwyrdd yn ffurfiol ac felly nid ydynt wedi eu cynnwys yn y dadansoddiad hwn. Roedd canran y gyfradd weithredu ar 31 Rhagfyr 2016 yn **82%** ar gyfer cofnodi a gweithredu argymhellion.

3.4.5 Mae **Tabl 2** isod yn cynnwys graff sy'n dangos gweithrediad yr argymhellion gan bob Gwasanaeth:

**Tabl 2**



3.4.6 Mae copi o'r holl argymhellion Uchel a Chanolig sy'n parhau i fod angen sylw ynghlwm yn **Atodiad E**.

3.4.7 Mae rhestr o'r 6 archwiliad dilyn-i-fyny a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Rhagfyr 2016 ynghlwm yn **Atodiad F**. Mae'n dangos nifer yr argymhellion a dderbyniwyd ac a weithredwyd wedyn gan reolwyr ym mhob maes, ynghyd â barn archwilio ddiwygiedig ynghylch digonolrwydd yr amgylchedd rheoli mewnol.

**3.5 Cyfeiriadau**

3.5.1 Yn ogystal â'r lefelau sicrwydd y cytunodd y gwasanaethau arnynt ac a ddarparwyd i gynorthwyo rheolwyr gwrdd ag amcanion yr Awdurdod, mae Archwilio Mewnol hefyd wedi ymgymryd ag ystod o gyfeiriadau/gwasanaethau ymgynghori sy'n cynnwys:

- Cyngor a chanllawiau i reolwyr ar amryw o faterion, gan gynnwys gweithredu'r system, cydymffurfio â pholisïau, rheoliadau a gweithdrefnau a gofynion rheolaethau mewnol.
- Hyfforddiant
- Ymchwiliadau arbennig gan gynnwys gwaith yn gysylltiedig â thwyll.

3.5.2 Cynlluniwyd y bydd 150 o ddyddiau yn cael eu neilltuo ar gyfer cyfeiriadau/ymgynghori yn ystod y flwyddyn ac roedd **182.35 o ddyddiau** wedi cael eu treulio ar y gwaith hwn hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2016.

3.5.3 Mae crynodeb o ymchwiliadau arbennig a wnaed gan Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2016 hyd at 31 Rhagfyr 2016 wedi'i gynnwys yn **Atodiad G** ac mae'n gyfanswm o **141.08 diwrnod**.

**3.6 Absenoldeb Salwch**

3.6.1 Mae'r Gwasanaeth yn rheoli absenoldeb salwch yn unol â Pholisi Absenoldeb Salwch yr Awdurdod. Cafwyd **5 diwrnod** o absenoldeb salwch yn ystod y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2016 yn erbyn targed blynyddol o 45 diwrnod

## 4. BLAENRAGLEN WAITH ARCHWILIO MEWNOL

| Teitl yr Adolygiad a Drefnwyd | Maes Gwasanaeth | Statws Cyfredol |
|---|---|---|
| Diwylliant Moesegol | Corfforaethol | Gwaith yn mynd rhagddo |
| Cydymffurfiad a Chaffael Corfforaethol | Corfforaethol | Drafft i'w adolygu |
| Ynys Ynni | Rheoleiddio a Datblygu Economiadd | Gwaith yn mynd rhagddo |
| Prif System Gyfrifo | Adnoddau | Gwaith yn mynd rhagddo |
| Uned Cynnal a Chadw Tai | Tai | Gwaith yn mynd rhagddo |

## 5. CASGLIAD

5.1 Mae dadansoddiad o berfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn y cyfnod 1 Ebrill 2016 hyd at 31 Rhagfyr 2016 yn dangos bod y lefelau perfformiad ar darged. Fodd bynnag, bydd gallu'r gwasanaeth i gyflawni Cynllun Gweithredol 2016/17 yn dibynnu ar lefel y galw am adnoddau archwilio yng nghyswllt cyfeiriadau, gwaith heb ei gynllunio cyn diwedd y flwyddyn a lefelau absenoldeb salwch.

**TARGEDAU PERFFORMIAD ARCHWILIO MEWNOL 2016/17** **ATODIAD A**

| Disgrifiad | CSYM Gwirioneddol 2013/14 | CSYM Gwirioneddol ar 31/3/15 | CSYM Gwirioneddol ar 31/3/16 | CSYM Targed 2016/17 | CSYM Gwirioneddol ar 31/12/16 | Cyfartaledd Cymru 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1.** % yr Archwiliadau Cynlluniedig a Gwblhawyd | 81% | 92% | 60.32% | 80% | 56.06% | 85% |
| **2.** Nifer yr Archwiliadau | 51 | 46 | 38 | 60 | 38 | 97 |
| **3.** % Ymatebion 'Boddhaol' gan Gleientiaid | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 99% |
| **4.** % yr Argymhellion a dderbyniwyd | 100% | 100% | 98% | 100% | 100% | 99% |
| **5.** % Gweithredu Argymhellion Lefel Uchel a Chanolig mewn archwiliadau Dilyn-i-fyny | 46% | 49% | 74% | 85% | 82% | D/B |
| **6.** % yr Archwiliadau a gwblhawyd o fewn yr amser a gynlluniwyd | D/B | D/B | 78.95% | 90% | 89.91% | 68% |
| **7.** % yr amser y codir amdano'n uniongyrchol yn erbyn y cyfanswm sydd ar gael | D/B | D/B | 59.74% | 70% | 59.92% | 67% |
| **8.** Nifer y dyddiadau ar gyfartaledd o'r cyfarfod cau i gyhoeddi'r adroddiad drafft | D/B | D/B | 6.61 diwrnod | 7 diwrnod | 4.91 diwrnod | 7.2 diwrnod |
| **9.** Nifer y dyddiau ar gyfartaledd rhwng yr ymateb i'r adroddiad drafft a chyhoeddi'r adroddiad terfynol | D/B | D/B | 2.41 diwrnod | 2 ddiwrnod | 2.21 diwrnod | 3.4 diwrnod |
| **10.** Y gost wirioneddol fesul diwrnod archwilio y codir amdano'n uniongyrchol | £245 | £238 | £318 | £250 | £280 | £227 |
| **11.** Nifer staff Archwilio | 5.5 | 5.6 | 5.68 | 5 | 5.68 | 8.1 |
| **12.** % y staff a adawodd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 10% |

RHAGFYR 2016

**ATODIAD B**

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**
**ARCHWILIO MEWNOL**

**DADANSODDIAD O WAITH YCHWANEGOL NAD OEDD WEDI EI GYNLLUNIO A WNAED YN YSTOD 1 EBRILL 2016 I 31 RHAGFYR 2016**

| | MAES | NATUR Y GWAITH | DYDDIAU ARCHWILIO |
|---|---|---|---|
| **1** | Corfforaethol / Dysgu Gydol Oes | Adolygiad proses amserlenni Addysg – Cais gan AD | 3.04 |
| **2** | Rhentu Doeth Cymru Gwarchod y Cyhoedd | Cafodd Archwilio Mewnol wybod ym mis Ebrill 2016 bod rhaid cyflwyno Tystysgrif Rhentu Doeth Cymru ac Adroddiad Archwilio Mewnol i LlC erbyn 31 Hydref 2016. | 7.32 |
| | **CYFANSWM NIFER Y DYDDIAU** | | **10.36** |

………………………

**MATRICS RISG a LEFELAU SICRWYDD** **ATODIAD C**

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| TEBYGOLRWYDD | Digwyddiad bron yn sicr o ddigwydd yn y rhan fwyaf o amgylchiadau | >70% | Bron Yn Sicr | A | | | | | |
| | Digwyddiad yn debygol o ddigwydd yn y rhan fwyaf o amgylchiadau | 30-70% | Tebygol | B | | | | | |
| | Bydd y digwyddiad o bosib yn digwydd ar ryw adeg | 10-30% | Posib | C | | | | | |
| | Digwyddiad yn annhebygol a all ddigwydd rhyw bryd | 1-10% | Anhebygol | D | | | | | |
| | Digwyddiad prin fydd ond yn digwydd mewn amgylchiadau eithriadol | <1% | Prin | E | | | | | |
| | | | | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 |
| | | | | | Dinod | Bychan | Cymedrol | Sylweddol | Trychinebus |
| Gwasanaeth | | | | | Dim effaith ar ansawdd y gwasanaeth, tarfu gyfyngedig i weithrediadau | Mân effaith ar ansawdd y gwasanaeth, nid yw safonau gwasanaeth mân yn cael eu bodloni, amhariad tymor byr i weithrediadau | Gostyngiad sylweddol yn ansawdd y gwasanaeth, amhariad difrifol i safonau gwasanaeth | Effaith sylweddol ar ansawdd gwasanaethau, safonau gwasanaeth lluosog heb eu bodloni, amhariad tymor hir i weithrediadau | Gostyngiad trychinebus yn ansawdd y gwasanaeth a safonau gwasanaeth allweddol ddim yn cael eu bodloni, ymyriad trychinebus hirdymor i weithrediadau |
| Enw Da | | | | | Pryder cyhoeddus wedi ei gyfyngu i gwynion lleol | Mân sylw anffafriol lleol / cyhoeddus / cyfryngau a chwynion | Sylw andwyol lleol difrifol neu sylw andwyol mân yn y wasg rhanbarthol neu chenedlaethol | Beirniadaeth rhanbarthol difrifol neu genedlaethol negyddol | Condemniad rhanbarthol a chenedlaethol hir |
| Côst Ariannol (£) | | | | | < £50k | £50k - £250k | £250k - £750k | £750k - £3m | >£3m |

| **LEFEL SICRWYDD** | **DIFFINIAD** | **YMYRRAETH RHEOLWYR** |
|---|---|---|
| SICRWYDD SYLWEDDOL | Mae’r trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn dda.<br>**Ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw gamgymeriadau sylweddol na materol.** | Dim angen i’r rheolwyr gymryd unrhyw gamau gweithredu neu angen iddynt gymryd camau lefel isel yn unig. |
| SICRWYDD RHESYMOL | Mae’r trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg ac/neu reolaeth fewnol yn rhesymol.<br>**Peth anghysondeb o ran gweithrediad ac mae cyfleoedd yn dal i fodoli i liniaru er mwyn atal unrhyw risgiau pellach.** | Angen gweithrediad gan Reolwyr ar lefel isel i gymedrol. Darganfyddiadau yn rai y gellir eu cadw ar lefel gwasanaeth. |
| SICRWYDD CYFYNGEDIG | Mae’r trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg ac/neu reolaeth fewnol yn gyfyngedig.<br>**Mae bylchau yn y broses sy’n gadael y gwasanaeth yn agored i risgiau. Nid yw amcanion yn cael eu bodloni neu maent yn cael eu bodloni heb gyflawni gwerth am arian.** | Angen gweithrediad gan Reolwyr ar lefel cymedrol i uchel. Darganfyddiadau yn rhai sydd angen eu datrys gan benaethiaid gwasanaeth ac efallai y bydd angen hysbysu’r UDA. |
| SICRWYDD LLEIAF | Mae diffygion sylweddol yn y trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol.<br>**Ystyrir bod rheoliadau allweddol yn annigonol heb o leiaf un broses reoli gritigol. Mae hefyd angen gwella cydymffurfiaeth gyda’r rheoliadau presennol a dod o hyd i gamgymeriadau ac esgeulustod.** | Angen camau gweithredu effaith uchel gan Reolwyr mewn nifer o feysydd. Gwendidau rheoli sydd angen sylw brys gan yr UDA ac ymyrraeth o bosib gan y Pwyllgor Gwaith. |

**MATRICS RISG a LEFELAU SICRWYDD** **ATODIAD C**

## Crynodeb o Argymhellion a Lefelau Sicrwydd 1-4-16 i 31-12-16 ATODIAD D

| | Teitl yr adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm yr Argymhellion Archwilio | Negeseuon allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Gwirio Stoc TLIU DLO Stoc Gwirio Gwaith yn mynd rhagddo 2015/16 | Mai 2016 | Tai | Amherthasol | Cynhaliwyd gwiriad stoc blynyddol gan Wasanaeth Archwilio Mewnol yr Awdurdod yn Nepo'r UCA ar 28 Mawrth, 2016. Gwerth y stoc ar ddiwedd y flwyddyn oedd £134,515.08<br><br>**Barn:** Mae'r cofnodiadau stoc a gedwir yn y Depo yn ddigon cywir ac yn darparu cofnod dibynadwy o lefelau stoc fel yr oeddynt ar ddiwedd y flwyddyn. | Sylweddol |
| 2 | Rheolaethau Allweddol Budd-dal Tai Gwaith yn mynd rhagddo 2015/16 | Mehefin 2016 | Tai | 12 | Dyma'r canfyddiadau allweddol o'r adolygiad hwn:<br>▪ Caiff diweddariadau ar weithdrefnau eu dosbarthu drwy e-bost i staff Budd-dal Tai fel sy'n briodol. Defnyddir fforymau perthnasol a chyfarfodydd rhanbarthol amrywiol hefyd i rannu arfer da.<br>▪ Mae angen diweddaru canllawiau'r Awdurdod i sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda'r Canllawiau Gordaliadau Budd-dal Tai a gyhoeddwyd gan DWP yn ystod mis Chwefror 2015, ac a adolygwyd wedi hynny ym mis Gorffennaf 2015.<br>▪ Ni chanfuwyd bod tystiolaeth bob amser yn cael ei chadw ar ffeiliau hawlwyr yn unol â'r disgwyliad. | Cyfyngedig |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ▪ Nid oedd cofnod o benderfyniadau a wnaed o ran y dull o adennill gordaliadau yn cael ei gadw ar ffeil. Disgwylir y byddai ffurflen Adennill Budd-dal Tai a ordalwyd a Gostyngiad Gormodol yn y Dreth Gyngor yn cael ei chwblhau fel cofnod o'r trywydd penderfyniadau a wnaed yn ystod y broses adfer.<br>▪ Mae yna broblemau pan yn cysoni'r symiau a awdurdodwyd i'w dileu a'r swm gwirioneddol a ddilëwyd ar y system Northgate SX3. Roedd un achos lle yr oedd y swm a ddilëwyd ar gyfer hawliwr unigol yn fwy na'r hyn a awdurdodwyd gan y Swyddog Adran 151.<br>▪ Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd i drafod gwaith monitro perfformiad a chymerir camau cadarnhaol i sicrhau bod cywirdeb yn gwella.<br>▪ Cymerwyd camau pellach i ychwanegu at y gordaliadau sy'n cael eu hadennill gordaliadau gyda chyfwerth ag un swyddog llawn amser yn treulio eu hamser yn ymdrin â gordaliadau.<br>**Barn:** Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risgiau a rheolaeth fewnol yn gyfyngedig. Arweiniodd yr adolygiad at Farn Archwilio Sicrwydd Cyfyngedig gydag un argymhelliad categori Uchel, pum argymhelliad categori Canolig a chwe argymhelliad categori Isel yn cael eu cytuno gyda'r rheolwyr. | |
| 3 | Diogelu Corfforaethol<br>Gwaith yn mynd rhagddo 2015/16 | Awst 2016 | Corfforaethol | 32 | Yn 2014/15, bu Swyddfa Archwilio Cymru'n ymchwilio i ba raddau yr oedd Cynghorau wedi sefydlu, ac yn gweithredu, prosesau a dulliau rheoli a sicrwydd effeithiol mewn perthynas â diogelu.<br>Argymhellodd yr adolygiad 'Archwilio Mewnol i gynnwys Diogelu yn ei raglen flynyddol i ddarparu | Cyfyngedig |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | sicrwydd ar effeithiolrwydd Diogelu Corfforaethol y Cyngor'.<br><br>Yn ystod 2013/14, cyfunodd y Cyngor y cyfrifoldeb am ddiogelu plant ac oedolion dan un Pennaeth Gwasanaeth (Plant). Yn 2014/15, sefydlwyd Bwrdd Diogelu Corfforaethol er mwyn sicrhau bod dyletswyddau allweddol y Cyngor mewn perthynas â diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion bregus yn cael eu cyflawni'n ddigonol.<br><br>Cynhaliwyd archwiliad o Ddiogelu Corfforaethol fel rhan o'r cynllun Archwilio Mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2016/17.<br><br>Canfu'r adolygiad:<br><br>• Nid oedd y Polisi a'r Gweithdrefnau Corfforaethol ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion Bregus wedi cael eu diweddaru i adlewyrchu canllawiau statudol diweddar gan gynnwys y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2016 a'r canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel (2015);<br><br>• Tystiolaeth gyfyngedig oedd ar gael bod gwybodaeth wedi cael ei rhannu ar benodiadau corfforaethol mewn perthynas â diogelu ac enwi uwch swyddogion i gyflawni swyddogaethau diogelu dynodedig;<br><br>• Defnydd cyfyngedig oedd yn cael ei wneud hefyd o fewnrwyd y Cyngor i roi cyhoeddusrwydd i, a | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | hyrwyddo diogelwch yn fewnol ac yn allanol, gan gynnwys adrodd ar waith y Bwrdd Diogelu Corfforaethol a chysylltu hynny â pholisïau a chynlluniau gweithredu ac atgyfnerthu ymrwymiad y Cyngor i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant, pobl ifanc ac oedolion bregus;<br><br>• Er bod amcanion diogelu wedi cael eu hadlewyrchu yn y rhan fwyaf o'r cynlluniau datblygu gwasanaeth, nodwyd nad oedd aliniad bob amser gyda'r cofrestrau risg o ran cofnodi'r risgiau o ran diogelu;<br><br>• Er y cafwyd sicrwydd bod staff a chanddynt ddyletswyddau diogelu uniongyrchol wedi mynychu hyfforddiant diogelu / sesiynau gloywi yn ôl yr angen mae bwlch o ran staff yn gyffredinol yn mynychu hyfforddiant ymwybyddiaeth a hyfforddiant penodol ar gyfer gwirwyr tystiolaeth (dilysu ID ar gyfer y broses GDG), swyddogion diogelu penodedig y tu allan i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac ysgolion; nid yw hyfforddiant recriwtio diogelach ar gyfer rheolwyr yn orfodol ar hyn o bryd;<br><br>• Cydymffurfiaeth gyfyngedig yn unig mewn perthynas â derbyn a gwirio tystlythyrau ar gyfer swyddi 'gweithgareddau a reoleiddir' cyn y cyfweliadau a chyfyngedig hefyd o ran cynnal cofnodiadau cyflawn fel tystiolaeth diogelu cyn cyflogi gan gynnwys tystlythyrau a gwiriadau GDG; | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | • Nodwyd rhai materion mewn perthynas â nodi swyddi sydd angen datgeliad GDG yn erbyn y meini prawf cymhwyster GDG; nodwyd eithriadau wrth asesu cydymffurfiaeth gyda pholisi GDG y Cyngor gan gynnwys GDG ar gyfer dechreuwyr newydd; asesiad risg ac adnewyddu'r gwiriad bob tair blynedd;<br><br>• Dim polisi corfforaethol ar ymdrin yn ddiogel â gwybodaeth a ddarperir gan y GDG ar gael i unigolion ar yr adeg y gofynnir iddynt gwblhau ffurflen gais am GDG neu ofyn am ganiatâd i ddefnyddio eu gwybodaeth i gael at unrhyw wasanaeth y mae'r GDG yn ei ddarparu;<br><br>• Nodwyd rhai eithriadau mewn perthynas â safonau diogelu mewn trefniadau contract gan gynnwys diffyg telerau ac amodau penodol yn ymwneud â:<br><br>- Yr angen i asiantaethau / sefydliadau fod â pholisïau a gweithdrefnau diogelu a chydymffurfio â nhw; a<br><br>- Rheoli perfformiad i sicrhau cydymffurfiaeth gyda pholisïau a gweithdrefnau diogelu fel sy'n briodol.<br><br>• Nid yw'r adain Archwilio Mewnol yn adolygu'n rheolaidd ar hyn o bryd y safonau diogelu mewn adolygiadau o sefydliadau a chontractau newydd/cyfredol. | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **Barn**: Mae’r trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg a rheolaethau mewnol yn gyfyngedig. Mae rhai gwasanaethau yn y Cyngor yn araf i wreiddio amcanion diogelu yn eu prosesau cynllunio busnes ac ystyried diogelu fel rhan sylfaenol o bob agwedd o waith sy’n ymwneud â phlant, pobl ifanc ac oedolion bregus. | |
| 4 | Gorchmynion Llys Gofal Plant o dan yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus Gwaith yn mynd rhagddo 2015/16 | Rhag 2016 | Gwasanaethau Plant | 29 | Mae Adran 17 Deddf Plant 1989 yn datgan bod gan yr awdurdod lleol ddyletswydd gyffredinol i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant o fewn ardal yr awdurdod ac i sicrhau bod y plant hynny’n cael eu magu gan eu teuluoedd.<br><br>Mae tynnu plentyn oddi ar ei rhiant yn angenrheidiol mewn rhai achosion er mwyn sicrhau diogelwch a lles y plentyn. Protocol yw’r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (PLO) sy’n ceisio lleihau oedi dianghenraid mewn achosion llys teuluoedd.<br><br>Crynhoir prif ganfyddiadau’r adolygiad isod:<br><br>• Mae’r wybodaeth a gedwir ar RAISE (system cofnodion electronig iechyd a gofal cymdeithasol) yn annibynadwy oherwydd:<br><br>— oedi o ran llwytho dogfennau<br>— achosion lle mae dogfennau yn cael eu llwytho ar ffeil un sibling ar RAISE er eu bod yn berthnasol i’r holl siblingiaid.<br>— Diffyg tystiolaeth ar ffeiliau RAISE i ddangos pa gyfarfodydd cyn-achos a gynhaliwyd neu pa lythyrau swyddogol | Cyfyngedig |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | anfonwyd at y sawl sydd â chyfrifoldeb rhiant yn eu hysbysu o’r penderfyniad a wnaed yn y Cyfarfod Porth Gadw Cyfreithiol ac yn rhestru pryderon yr Awdurdod Lleol.<br><br>• Nid yw’r Llythyr Cyn Achos yn rhoi amserlen ar gyfer y camau y mae’n rhaid i rieni eu cymryd er mwyn osgoi achosion llys.<br>• Nid oedd ymweliadau gweithwyr cefnogol bob tro’n cael eu cynnal yn unol â’r cynlluniau er mwyn sicrhau lles y plentyn/plant tra eu bod yn parhau i fod yng ngofal eu rhieni yn ystod achosion llys.<br>• Nid yw holl weithwyr y Gwasanaethau Plant wedi derbyn hyfforddiant Diogelu Data.<br>• Mae’r Gwasanaeth wedi adnabod yr angen am hyfforddiant pellach ar sgiliau llys ac wedi trefnu gweithdy hyfforddiant yn Seiliedig ar Gymwyseddau yn ystod y flwyddyn, a oedd yn cynnwys dau ddiwrnod ar y pwnc “Y Gyfraith, Tystiolaeth, Gweithdrefn ac Arfer Orau” a dau ddiwrnod pellach yn rhoi sylw i sgiliau llys ac ysgrifennu adroddiadau. Adroddodd Rheolwyr bod y staff a oedd wedi bod ar y cwrs wedi rhoi adborth cadarnhaol.<br>• Yn ystod y flwyddyn gwnaed ymdrechion pellach i wella sgiliau ysgrifennu adroddiadau a chasglu tystiolaeth drwy hysbysebu swydd Gweithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol – PLO / Arbenigwr Llys fydd yn cynorthwyo i hyrwyddo arfer gwaith cymdeithasol o ansawdd uchel ac yn cefnogi staff a rheolwyr i wella ymarfer mewn perthynas ag achosion gofal. Pan oedd yr archwiliad yn cael ei gynnal roedd y swydd wedi ei hysbysebu | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ddwywaith ond nid oedd unrhyw un wedi ei apwyntio.<br><br>**Barn**: Mae trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn gyfyngedig. Mae bylchau yn y broses sy’n golygu bod y Gwasanaeth yn agored i risgiau. Mae angen i reolwyr gymryd camau gweithredu fydd yn cael effaith uchel i gymedrol. | |
| 5 | Ysgol Llannerchymedd | Mai 2016 | Dysgu Gydol Oes | 12 | Dyma’r canfyddiadau allweddol o archwiliad o Ysgol Llannerch-y-medd a gynhaliwyd fel rhan o'r Cynllun Archwilio Mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2016/17:<br><br>• Cynhaliwyd profion ar sampl o gofnodion incwm prydau ysgol, brecwast ysgol a chofnodion incwm cyffredinol a chanfuwyd eu bod yn gywir ac yn cael eu cadw i safon foddhaol<br><br>• Canfuwyd bod cyllideb yr ysgol yn cael ei mabwysiadu’n flynyddol gan y corff llywodraethu a bod materion ariannol yn cael eu trafod yn rheolaidd<br><br>• Nid oedd yr ysgol bob amser yn llenwi ffurflen archebu cyn prynu<br><br>• Nid oedd y ffurflen adolygu tâl athrawon ar gyfer 2015/16 wedi cael ei dychwelyd i'r Adran Addysg cyn 1 Medi 2015<br><br>• Yr ysgol i gofrestru gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth yn unol â Deddf Diogelu Data 1988<br><br>**Barn:** Barn archwilio Sicrwydd rhesymol yn gyffredinol | Rhesymol |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | o ganlyniad i'r adolygiad gyda dau argymhelliad categori canolig a thri argymhelliad categori isel yn cael eu cytuno gyda'r pennaeth. | |
| 6 | Ysgol Tywyn | Mehefin 2016 | Dysgu Gydol Oes | 4 | Dyma’r canfyddiadau allweddol o archwiliad o Ysgol Tywyn a gynhaliwyd fel rhan o'r Cynllun Archwilio Mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2016/17:<br><br>• Roedd y cofnod prydau ysgolion yn cael ei gynnal i safon uchel yn yr ysgol, ond dylai lefel yr ôl-ddyledion gael ei monitro'n effeithiol yn unol â Chanllawiau’r Adran Addysg<br><br>• Mae cyllideb yr ysgol yn cael ei thrafod yn rheolaidd gyda'r Llywodraethwyr ac yn cael ei mabwysiadu’n flynyddol gan y Corff Llywodraethu<br><br>• Mae cyfrifon cronfa’r ysgol yn cael eu cynnal i safon briodol ac yn cael eu harchwilio'n annibynnol ar sail flynyddol. Mae'r ddogfen "Cofnod Archwilio Cronfa’r Ysgol" yn cael ei chyflwyno i Fwrdd y Llywodraethwyr yn flynyddol.<br><br>**Barn:** Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn dda. | Sylweddol |
| 7 | Ysgol Llandegfan | Mehefin 2016 | Dysgu Gydol Oes | 1 | Dyma’r canfyddiadau allweddol o archwiliad o Ysgol Llandegfan a gynhaliwyd fel rhan o'r Cynllun Archwilio Mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2016/17:<br><br>• Mae'r cofnod prydau ysgolion yn cael ei chynnal i safon uchel yn yr ysgol<br><br>• Mae cyllideb yr ysgol yn cael ei thrafod yn | Sylweddol |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | rheolaidd gyda'r Llywodraethwyr ac yn cael ei mabwysiadu’n flynyddol gan y Corff Llywodraethu<br><br>• Mae cyfrifon cronfa’r ysgol yn cael eu cynnal i safon briodol ac yn cael eu harchwilio'n annibynnol ar sail flynyddol. Mae'r ddogfen "Cofnod Archwilio Cronfa’r Ysgol" yn cael ei chyflwyno i Fwrdd y Llywodraethwyr yn flynyddol.<br><br>**Barn:** Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn dda. | |
| 8 | Ysgol Y Graig | Mehefin 2016 | Dysgu Gydol Oes | 5 | Dyma’r canfyddiadau allweddol o archwiliad o Ysgol y Graig a gynhaliwyd fel rhan o'r Cynllun Archwilio Mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2016/17:<br><br>• Mae cyllideb yr ysgol yn cael ei thrafod yn rheolaidd gyda'r Llywodraethwyr ac yn cael ei mabwysiadu’n flynyddol gan y Corff Llywodraethu<br><br>• Roedd cofnodion incwm cyffredinol a ffioedd gwersi cerddoriaeth yn gywir ac yn cael eu cynnal i safon foddhaol<br><br>• Dylai prydau ysgol gael eu cofnodi'n gywir a dylai'r ysgol fonitro lefel yr ôl-ddyledion yn effeithiol yn unol â Chanllawiau’r Adran Addysg.<br><br>**Barn:** barn archwilio Sicrwydd Rhesymol yn gyffredinol o ganlyniad i'r adolygiad gydag un argymhelliad categori Canolig a phedwar argymhelliad categori Isel yn cael eu cytuno gyda'r | Sylweddol |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | pennaeth. | |
| 9 | Ysgol Llanfair PG | Mehefin 2016 | Dysgu Gydol Oes | 5 | Cynhaliwyd archwiliad yn Ysgol Llanfair PG fel rhan o'r cynllun Archwilio Mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2016/17.<br><br>Dyma ganfyddiadau allweddol yr adolygiad:<br><br>• Roedd cofnod prydau ysgol yn cael ei gynnal i safon uchel yn yr ysgol<br><br>• Mae cyllideb yr ysgol yn cael ei thrafod yn rheolaidd gyda'r Llywodraethwyr ac yn cael ei mabwysiadu'n flynyddol gan y Corff Llywodraethu<br><br>**CAMAU ALLWEDDOL Y CYTUNWYD ARNYNT**<br><br>• Dylai archebion gael eu cwblhau cyn derbyn nwyddau<br><br>• Dylai'r ysgol adolygu ffioedd gosod yr ysgol bob blwyddyn<br><br>• Yr ysgol i gofrestru gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth yn unol â Deddf Diogelu Data 1988<br><br>**Barn:** Barn archwilio Sicrwydd Rhesymol yn gyffredinol o ganlyniad i'r adolygiad gyda dau argymhelliad categori Canolig a thri argymhelliad categori Isel yn cael eu cytuno gyda'r pennaeth. | Rhesymol |
| 10 | Ysgol Esceifiog | Mehefin 2016 | Dysgu Gydol Oes | 4 | Cynhaliwyd archwiliad o Ysgol Esceifiog fel rhan o'r Cynllun Archwilio Mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2016/17. | Sylweddol |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Dyma’r canfyddiadau Allweddol o'r adolygiad:<br><br>• Mae'r cofnod prydau ysgolion yn cael ei gynnal i safon uchel yn yr ysgol<br><br>• Mae cyllideb yr ysgol yn cael ei thrafod yn rheolaidd gyda'r Llywodraethwyr ac yn cael ei mabwysiadu’n flynyddol gan y Corff Llywodraethu<br><br>• Mae cyfrifon cronfa’r ysgol yn cael eu cynnal i safon briodol ac yn cael eu harchwilio'n annibynnol ar sail flynyddol. Mae'r ddogfen "Cofnod Archwilio Cronfa’r Ysgol" yn cael ei chyflwyno i Fwrdd y Llywodraethwyr yn flynyddol.<br><br>**Barn:** Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn dda. | |
| 11 | Ffioedd Rheoli Adeiladu – Trefniadau Arolygu & Gorfodaeth | Mehefin 2016 | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 8 | Dyma’r canfyddiadau allweddol o'r adolygiad hwn:<br>▪ Nid yw Taliadau Rheoli Adeiladu yn cael eu hadolygu'n flynyddol.<br>▪ Nid oes gweithdrefnau o ran nodi a sut i ymdrin ag achos / achos posibl o dorri'r Rheoliadau neu Weithdrefnau ynghylch cofnodi arolygiad / au.<br>▪ Nid oedd unrhyw weithdrefnau yn bodoli ar gyfer gweinyddu ad-daliadau..<br>▪ Ni fedrir cofnodi ymweliadau safle ar system CIVICA.<br>▪ Dim ffurflenni datgan diddordeb ffurfiol wedi cael eu llenwi gan swyddogion yn yr adain Rheoli Adeiladu.<br>▪ Dim gwaith cysoni yn cael ei wneud o ran anfonebu a chasglu incwm ar y system CIVICA. | Cyfyngedig |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **Barn:** Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risgiau a rheolaeth fewnol yn gyfyngedig. Arweiniodd yr adolygiad at Farn Archwilio Sicrwydd Cyfyngedig gydag wyth argymhelliad categori Canolig yn cael eu cytuno gyda'r rheolwyr. | |
| 12 | Ffioedd a Phrisiau Ceisiadau Cynllunio | Awst 2016 | Buddsoddiad ac Adfywiad Economaidd | 4 | Cafwyd oddeutu 1,400 o geisiadau cynllunio yn ystod 2015/16 – incwm o £528,386.44.<br><br>Mewn archwiliad a gynhaliwyd fel rhan o'r cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2016/17, nodwyd bod gan yr Adran Gynllunio drefniadau llywodraethiant priodol ar gyfer rheoli ei Cheisiadau Cynllunio.<br><br>Nid yw penderfyniad ynghylch ceisiadau cynllunio yn cael eu gwneud bob amser o fewn y cyfnod 8 wythnos statudol ac nid oes unrhyw gofrestr gyhoeddus o'r holl geisiadau cynllunio ar wefan yr Awdurdod.<br><br>**Barn**: Mae'r trefniadau llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn dda. | Sylweddol |
| 13 | Cydymffurfiad â Safonau Diogelwch Data y Diwydiant Cardiau Talu | Awst 2016 | Adnoddau | 18 | Prosesodd yr Awdurdod 8,200 o drafodion ar-lein a 12,400 o drafodion Chip & PIN lle nad oedd perchennog y cerdyn yn bresennol yn ystod 2015/16. Rhwng Ebrill a Gorffennaf 2016, proseswyd 6,682 o drafodion gan yr Awdurdod a oedd werth £1,238,250.22.<br><br>Mae natur gludadwy a hwylustod cardiau yn golygu y gall fod yn agored i gamddefnydd a dylai'r Awdurdod gydymffurfio gyda'r Safonau Diogelwch Data y Diwydiant Cardiau Talu (PCI DSS). | Cyfyngedig |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Dyma brif ganfyddiadau'r adolygiad:<br><br>• Nid oes unrhyw gynllun cyflawni i amlinellu'r modd y bydd yr Awdurdod yn cydymffurfio gyda PCI DSS.<br><br>• Nid yw'r Awdurdod yn cynhyrchu datganiad blynyddol o gydymffurfiaeth gyda PCI DSS ac nid oes ganddo ychwaith ddangosyddion diffiniedig i fesur cydymffurfiaeth<br><br>• Nid yw'r Polisi Diogelwch TGCh a'r Polisi Diogelwch Gwybodaeth yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â PCI DSS<br><br>• Ar hyn o bryd, nid oes hyfforddiant ffurfiol ar gael i weithwyr o fewn 6 mis o gychwyn mewn swydd sy'n gyfrifol am brosesu taliadau gyda cherdyn<br><br>• Nid yw'r Awdurdod wedi nodi a mapio'r amgylchedd cerdyn credyd<br><br>• Nid yw'r Awdurdod wedi datblygu fframwaith rheoli diogelwch i gydymffurfio gyda PCI DSS<br><br>• Nid yw hunanasesiadau blynyddol yn cael eu cynnal.<br><br>**Barn:** Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risgiau a rheolaeth fewnol yn gyfyngedig. Mae bylchau yn y broses sy'n gadael y gwasanaeth yn agored i risgiau. Angen gweithrediad gan reolwyr ar lefel gymedrol i uchel. | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 14 | Trefniadau Yswiriant | Tach 2016 | Adnoddau | 2 | Cyfanswm setliad yswiriant yr Awdurdod ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2016 i 30 Medi 2016 oedd £142,442.65 (o'r hawliadau a wnaethpwyd yn ystod y cyfnod hwn).<br><br>Canfu'r archwiliad a gynhaliwyd fel rhan o'r cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2016/17 bod gan yr Adran Adnoddau drefniadau llywodraethu priodol ar gyfer rheoli'r Gwasanaeth Yswiriant.<br><br>Ar hyn o bryd nid oes polisi yn manylu ar weithdrefnau'n ymwneud â ffurflenni, amserlenni a deddfwriaeth ynghylch hawliadau yswiriant.<br><br>**Barn:** Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn dda. Ni chanfuwyd unrhyw gamgymeriadau sylweddol o bwys. | Sylweddol |
| 15 | Trefniadau Wrth Gefn Allan o Oriau | Rhag 2016 | Corfforaethol | 10 | Mae'r Cyngor yn darparu ystod eang o wasanaethau i bobl Ynys Môn. Mae'n rhaid i rai gwasanaethau wneud trefniadau wrth gefn tu allan i oriau swyddfa arferol er mwyn ymgymryd â dyletswyddau arferol neu ymateb i argyfyngau. Mewn rhai achosion, gallai hyn fod er mwyn cwrdd â gofynion cyfreithiol neu statudol.<br><br>Cyfanswm taliadau i swyddogion unigol mewn perthynas â gweithredu cynlluniau wrth gefn yn 2015/16 oedd £96,795.60 a £47,024.47 yn 2016/17 hyd at gyfnod 6.<br><br>Crynhoir prif ganfyddiadau'r adolygiad isod:<br><br>• Nid oedd y cynllun taliadau ar gyfer dyletswyddau wrth gefn wedi'i ddiweddaru ar y mewnrwyd i | Rhesymol |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | adlewyrchu'r dyfarniad cyflog diweddaraf.<br>• Er gwaetha'r disgwyliad y dylai'r holl weithwyr sy'n ymgymryd â dyletswyddau wrth gefn dderbyn taliad ar yr un sail yn dilyn y broses Arfarnu Swyddi, canfuwyd nifer o anghysonderau gyda rhai unigolion yn parhau i dderbyn taliad wrth gefn cyfartaleddol yn seiliedig ar gytundebau hanesyddol, er eu bod yn gweithio rota lawn.<br>• Roedd y rhan fwyaf o'r gwasanaethau a adolygwyd yn cadw cofnodion digon manwl i gefnogi ceisiadau a wnaed am lwfansau wrth gefn; fodd bynnag, canfuwyd nad oedd un gwasanaeth yn cadw cofnod o'r galwadau allan o oriau a dderbyniwyd; ar hyn o bryd nid yw'r Cyngor yn defnyddio cyfleusterau tracio galwadau na recordio galwadau.<br>• Nid oedd monitro yn digwydd yn gyson ar draws yr holl wasanaethau i asesu lefel y gwerth am arian mewn perthynas â gweithredu cynlluniau wrth gefn. Nid oedd effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd cynlluniau wrth gefn a weithredwyd yn cael eu hadolygu fel mater o drefn ar lefel uwch reolwyr.<br><br>**Barn**: Mae trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn rhesymol. Mae peth anghysondeb o ran gweithredu ac mae cyfleoedd yn bodoli o hyd i liniaru yn erbyn risgiau pellach. | |
| 16 | Tai Gofal Ychwanegol – Trefniadau Comisiynu | Rhag 2016 | Gwasanaethau Oedolion | 6 | Mae'r Prosiect Tai Gofal Ychwanegol yn rhan o raglen ehangach sef Rhaglen Trawsnewid Gofal Cymdeithasol Oedolion Hŷn, sy'n un o'r wyth blaenoriaeth yn y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2013-17.<br><br>Crynhoir prif ganfyddiadau'r adolygiad isod: | Cyfyngedig |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ▪ Er bod nifer o ddogfennau’r prosiect wedi eu cwblhau yn ôl y disgwyl, gellid gwella’r ddogfennaeth yn ymwneud â ‘gwersi a ddysgwyd’.<br>▪ Y broses gaffael oedd elfen wanaf y mesurau rheoli a brofwyd. Nid oedd y Tîm Caffael yn rhan o’r broses hyd nes yr oedd y gwahoddiad i dendro wedi cael ei anfon at y Cymdeithasau Tai. Arweiniodd hyn at fethiant o ran cydymffurfio â’r rheoliadau a dewis y broses dendro fwyaf addas (proses wedi’i negodi) ar gyfer y math o brosiect.<br>▪ Gallai cyswllt a thrafodaethau buan gydag adrannau perthnasol megis Budd-daliadau Tai fod wedi arwain at broses gynllunio gryfach a dogfen dendr fwy cadarn a fyddai’n cynnig cymaint â phosib o wybodaeth i gynigwyr posibl. Efallai y byddai hyn wedi atal rhai o’r problemau a gafwyd yn ystod 2015, yn arbennig y mater yn ymwneud ag uchafswm y rhent sydd ar gael drwy Fudd-daliadau Tai a arweiniodd at y Tîm Prosiect yn trafod gyda’r cynigiwr, sy’n groes i reolau caffael ynglŷn â bod yn deg ac yn dryloyw.<br>▪ Bydd hyfforddiant caffael ar gyfer swyddogion rheoli prosiect yn arwain at well dealltwriaeth o’r broses caffael yn ei chyfanrwydd.<br>▪ Ni chynhwyswyd elfennau Diogelu yn y cytundebau ar gyfer darparu gwasanaeth yn y cyfleuster Gofal Ychwanegol.<br>▪ Gwelodd Gwasanaethau Oedolion drosiant staff uchel yn ystod cyfnod y prosiect a ni lwyddodd y gwasanaeth i recriwtio Rheolwr Trawsnewid am beth amser. Gallai hyn fod wedi cael effaith andwyol ar reolaeth y prosiect.<br><br>**Barn**: Mae trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn gyfyngedig. Mae bylchau yn y | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | broses sy’n golygu bod y gwasanaeth yn agored i risg. Nid yw amcanion yn cael eu gwireddu neu maent yn cael eu gwireddu heb gynnig gwerth am arian. | |

**ATODIAD E**

**Argymhellion Blaenoriaeth Uchel gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol sydd heb gael sylw ar 31/12/2016**

| Cyf | Adroddiad | Argymhelliad | Dyddiad yr argymhelliad | Dyddiad gweithredu y cytunwyd arno | Swyddog Cyfrifol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Corfforaethol** | | | | | | |
| 1 | Rheolaethau System - Mynediad Rhesymegol a Gwahanu Dyletswyddau 1961. 14/15 | 2.3 Dylid sefydlu gweithdrefn sy'n sicrhau nad yw dechreuwyr sydd angen mynediad i rwydwaith, data a systemau'r Cyngor yn cael mynediad o'r fath hyd nes y bydd TGCh wedi cael tystiolaeth bod y defnyddiwr wedi cadarnhau ei fod wedi gweld, darllen, deall a chytuno i lynu wrth y Polisïau Diogelwch a Diogelwch Data. Os yw defnyddwyr wedi cael mynediad ond yna'n methu â darparu tystiolaeth o'r fath fel sy'n ofynnol uchod, tynnir y cyflester oddi arno hyd nes y bydd y dystiolaeth wedi ei darparu. | 08/09/14 | 31/03/2015 Newidiwyd y dyddiad i 30/12/2015 | Swyddog Gwybodaeth Corfforaethol | TGCh - Unwaith y bydd y feddalwedd cydymffurfio â pholisi yn ei lle, rhoddir pythefnos i staff newydd gymeradwyo'r polisïau.<br><br>Ar ôl gweithredu'r feddalwedd cydymffurfio â pholisi, cynigir bod y system yn cael ei gosod fel ei bod yn agor ar yr holl gyfrifiaduron personol pan fydd y defnyddiwr yn mewngofnodi - bydd hyn yn parhau pob tro y byddant yn mewngofnodi nes bod y polisïau wedi cael eu derbyn. Byddai TGCh hefyd yn ymchwilio i'r posibilrwydd yn y tymor hwy bod mynediad i'r Rhyngrwyd yn cael ei dynnu'n oddi wrth ddefnyddwyr newydd yn otomatig a dim ond ei roi yn ôl wedi derbyn tystiolaeth eu bod wedi ymrwymo i lynu wrth bolisïau TGCh allweddol.<br><br>Adolygiad SIRO & Swyddog Adran 151 - Ymchwilio i gyflwyno sgrîn mewngofnod sy'n cynnwys datganiad i ddefnyddwyr ei gymerdwyo yn tystio eu bod wedi darllen, deall a chytuno i lynu wrth Bolisïau TGCh allweddol.<br><br>Ar ôl gweithredu'r feddalwedd cydymffurfiaeth polisi, bydd dechreuwyr newydd yn cael pythefnos i ymrwymo i bolisïau a bydd y neges yn ymddangos ar eu cyfrifiadur hyd nes y bydd y polisïau wedi |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | eu derbyn a bydd defnydd o'r rhyngrwyd yn cael ei dynnu oddi arnynt os nad ydynt wedi derbyn y polisïau allweddol. Fodd bynnag, mae gweithrediad y feddalwedd cydymffurfio â pholisïau wrthi'n cael ei hadolygu ar hyn o bryd gan y grŵp corfforaethol sy'n cael ei gadeirio gan y SIRO - gweler uchod.<br><br>Mae prosiect sy'n cael ei arwain gan y Swyddog / Monitro SIRO wedi cael y dasg o weithredu system rheoli / derbyn polisïau - mae hyn yn dal i fynd rhagddo.<br><br>Unwaith y bydd datrysiad wedi ei sefydlu bydd hyn yn fodd i TGCh gyflawni'r argymhelliad hwn.<br><br>Diweddariad 25/08/16 - Mae'r system cydymffurfio â pholisïau wrthi'n cael ei gweithredu a chyda gobaith, daw'n 'fyw' yn ystod mis Hydref. Mae'n 'fyw' ar hyn o bryd i weinyddwyr y system ym mhob Gwasanaeth. Yr elfen nesaf yw adolygu'r broses ar gyfer pobl sy'n dechrau gweithio a'r rhai sy'n gadael - y Gwasanaeth Trawsnewid sy'n gyfrifol am hyn. Unwaith y bydd y broses wedi ei sefydlu a'r system yn weithredol, bydd modd gweithredu ar yr argymhelliad. |
| 2 | Rheolau Systemau – Mynediad Rhesymegol a Gwahanu Dyletswyddau 1961.14/15 | 8.3 Yn unol ag arfer gorau a Rheolau Gweithdrefnau Ariannol y Cyngor, dylid gwahanu'r dyletswyddau a ganlyn yn systemau a ganlyn y Cyngor:<br><br>Dyledwyr a'r Cyfriflyfr – Dylid adolygu mynediad yr ariannwr at y system dyledwyr a'r cyfriflyfr er mwyn sicrhau y cynhelir y gwaith o wahanu dyletswyddau rhwng y rhai | 08/09/2014 | 31/12/2014 dyddiad wedi newid i 31/12/2015 | Pennaeth Adnoddau | Adolygu Swyddogion - Ar gyfer y systemau ariannol, bydd y cyfrifoldeb o sicrhau bod dyletswyddau'n cael eu gwahanu'n ddigonol yn cael ei gynnwys mewn disgrifiadau swydd priodol yn sgil ailstrwythuro'r Gwasanaeth Cyllid fel y trefnwyd.<br><br>Dyledwyr / Cyfriflyfr / Credydwyr – Bydd y gwaith sy'n ymwneud â'r system ariannol yn rhan o ail-lansio CIVICA. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | hynny sy’n derbyn incwm a’r rhai sy’n cofnodi incwm.<br><br>Dylai gwaith cysoni, yn cynnwys systemau dyledwyr, derbynebu arian, a chysoniadau banc gael eu hadolygu gan weithiwr annibynnol er mwyn sicrhau cywirdeb.<br><br>Dylai addasiadau/nodiadau credyd/gwaith dileu dyledion i ddyledwyr gael eu hadolygu a’u cymeradwyo gan weithiwr nad oes ganddo gyfrifoldeb am gofnodi’r trafodion hyn.<br><br>Credydwyr - Dylai adroddiad diwygiadau Cyflenwyr gael ei adolygu gan weithiwr ar lefel oruchwyliol nad oes ganddo fodd i newid manylion cyflenwyr, gwaith cofnodi anfonebau, cymeradwyo anfonebau a chaniatáu taliadau.<br><br>Sefydliad Adnoddau Dynol / y gyflogres - dylai swyddogaethau gael eu cyfyngu i swyddogion nad oes ganddynt fodd i brosesu’r gyflogres neu raid i gofnodion y sefydliad hwnnw a osodwyd gan y gyflogres gael eu hadolygu gan weithiwr annibynnol i sicrhau eu bod yn ddilys Dylai’r swyddog sy’n gyfrifol am redeg y gyflogres fod yn annibynnol ar brosesu’r gyflogres er mwyn sicrhau y cedwir y cywirdeb. Dylai adroddiadau eithrio gael eu rhedeg a’u gwirio gan weithiwr ar lefel oruchwyliol (annibynnol) yn ôl i’r dogfennau ffynhonnell. Dylai’r adroddiadau | | | | Cyflogres - Bydd dyletswyddau'r Gyflogres a’r Sefydliad yn cael eu gwahanu yn y system gyflogres yn sgil cyswllt rhwng y Swyddog A151 a Phennaeth y Proffesiwn - Adnoddau Dynol.<br><br>Mae’r Gofrestr Asedion wedi’i chwblhau. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | amrywiant gael eu gwirio gan weithiwr ar lefel oruchwyliol (annibynnol) er mwyn sicrhau cywirdeb. Dylid adolygu hawliau mynediad holl ddefnyddwyr systemau cyflogres / Adnoddau Dynol er mwyn sicrhau priodoldeb, yn enwedig felly'r swyddog sy'n gyfrifol am gysoni'r gyflogres ac adolygu. | | | | |
| 3 | Polisïau Corfforaethol 1761.11/12 | Adolygu a gweithredu'r Adroddiad Polisïau Corfforaethol 1761 2011/12. | 07/10/2014 | 31/12/2014 dyddiad wedi newid i 29/04/2016 | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd | 23/02/2016 - Gwaith yn mynd rhagddo yn dilyn penderfyniad ym mis Hydref 2015 i ddyrannu cyllid. Trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda darparwr ynghylch contract.<br><br>30/06/2016 - Contract wedi'i lofnodi gyda chyflenwr<br><br>2016/01/03 - Hyfforddiant ar gyfer gweinyddwyr systemau i gael ei gyflwyno ym mis Gorffennaf 2016. Cyflwynwyd adroddiadau cynnydd i'r UDA ym Mai 2016 a nodwyd 7 o bolisïau allweddol yr UDA ar gyfer eu derbyn yn ystod y 12 mis cyntaf. Bydd gweithredu'r broses derbyn polisïau yn cychwyn ym mis Medi 2016.<br><br>Adroddiadau chwarterol ar lefelau derbyn y polisïau i'w gyflwyno i'r UDA (dyddiadau i'w gytuno) ynghyd ag adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio.<br><br>Diweddariad 02/09/16 - Mae'r Awdurdod wedi cynnal ymarfer tendro priodol ar gyfer datrysiad rheoli polisïau. Llofnodwyd y cytundeb ar 1 Mawrth. Cydnabuwyd bod angen rhoi blaenoriaeth i 3 pholisi ar Lywodraethu Gwybodaeth ar gyfer y cam cyntaf o weithredu'r system - cyflwynir 1 bob mis. Mae'r UDA wedi derbyn adroddiad pellach ac wedi penderfynu blaenoriaethu 7 polisi ar gyfer eu derbyn yn y 12 mis cyntaf (Medi 2016 ymlaen) - bydd y 3 cyntaf yn |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | ymwneud â Diogelu Data, 2 yn berthnasol i Iechyd a Diogelwch, 1 yn ymwneud ag Absenoldeb Salwch ac un â'r Safonau Iaith. Bydd yr UDA yn adolygu'r blaenoriaethu'n flynyddol. Mae gweinyddwyr wedi cael eu nodi ar gyfer y system ac wedi derbyn hyfforddiant ar 12 Gorffennaf 2016. Mae'r system ar gael yn awr i'r gweinyddwyr ac maent wrthi'n llwytho'r polisïau ar y system. Y nod yw cyflwyno'r system i'r staff fel llyfrgell o bolisïau corfforaethol sy'n adnodd defnyddiol o wybodaeth cyn cyflwyno'r angen i dderbyn polisïau (profion) ar y nifer fechan o feysydd a nodwyd gan yr UDA.<br><br>Diweddariad 31/10/16 - gwybodaeth i'w dosbarthu drwy'r Ddolen i esbonio'r Porth Polisi. |
| 4 | Trefniadau Diogelu Corfforaethol 053 2016/17 | 2.5b Dylai Penaethiaid Gwasanaeth sicrhau bod cofrestrau risg yn cyd-fynd â'r cynllun busnes a bod risgiau diogelu wedi eu nodi yn holl gofrestrau risg y gwasanaethau a bod camau lliniaru wedi eu cofnodi a bod cynnydd yn cael ei fonitro yn unol â'r Fframwaith Rheoli Perfformiad Corfforaethol. Dylai ysgolion ddatblygu cofrestrau risg er mwyn adnabod a chofnodi'n ffurfiol y risgiau diogelu a'r rheolaethau lliniaru sydd ar waith i reoli'r risgiau hynny. | 09/09/16 | 30/09/16 | Rheolwr Rhaglen a Chynllunio Busnes a | * Mae Rheoleiddwyr allanol ysgolion yn sicrhau bod gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu ar draws pob sector - addysg gynradd, uwchradd ac arbennig. Yn wir, byddai ysgolion â safonau addysgol eithriadol yn destun mesurau arbennig ar unwaith, os byddai'r gweithdrefnau ar gyfer diogelu yn ddiffygiol mewn unrhyw ffordd,<br><br>Mae ysgolion yn cwblhau hunanasesiadau i ddibenion Arolwg Estyn a rhaid cyflwyno hunanasesiadau ar drefniadau diogelu bob blwyddyn i'r Adran Addysg; nid yw'r angen i ysgolion lunio cofrestrau risgiau diogelu erioed wedi codi o unrhyw Arolygiad ac ar hyn o bryd nid oes unrhyw ofyniad rhanbarthol neu genedlaethol i wneud hyn.<br><br>I'w gydlynu gan y Rheolwr Rhaglen a Chynllunio Busnes.<br><br>Diweddariad 04/11/16 - Yn unol â CPPMF drafftiwyd cynlluniau darparu gwasanaeth ar gyfer 16/17 ac maent yn cynnwys cyfrifoldebau o ran diogelu. Mae cofrestrau |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | risg ar gyfer y gwasanaethau hynny yn cael eu monitro bob chwarter er mwyn cael sicrwydd bod risgiau cysylltiedig hefyd yn cael eu rheoli. |
| 5 | Trefniadau Diogelu Corfforaethol 053 2016/17 | 4.3f Dylai'r Cyngor ddatblygu polisi corfforaethol ar gyfer trin yn ddiogel y wybodaeth a ddarperir trwy'r GDG a sicrhau bod copi o'r polisi ysgrifenedig ar gael i unigolion pan ofynnir iddynt lenwi ffurflen gais GDG neu'n gofyn am ganiatâd i ddefnyddio eu gwybodaeth i gael mynediad at unrhyw wasanaeth a ddarperir gan y GDG. Dylid cyfathrebu'r polisi i staff perthnasol fel y bo'n briodol. | 09/09/16 | 31/12/16 | Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol | AD i gydweithio gyda'r Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol wrth ddatblygu'r polisi ar ymdrin â gwybodaeth a ddarperir gan GDG ac ymgynghori gyda Phenaethiaid. Y gwasanaethau unigol sy'n gyfrifol am weithredu'r polisi y cytunwyd arno. Mae'r cyfrifoldeb am rannu gwybodaeth am y polisi gyda staff yn rhan o waith y Bwrdd Diogelu Corfforaethol. |
| 6 | Trefniadau Diogelu Corfforaethol 053 2016/17 | 4.4 Yn unol â'r Polisi Recriwtio Mwy Diogel, dylai unrhyw benderfyniad i awdurdodi unigolyn i ddechrau gweithio heb wiriad GDG fod mewn amgylchiadau eithriadol yn unig a dylai fod wedi ei gefnogi gan asesiad risg ffurfiol a dulliau diogelu priodol eraill a gymeradwyir gan y Pennaeth Gwasanaeth. Dylid gwneud y cais GDG ar yr un pryd, a phan fydd y gwiriad GDG wedi ei gadarnhau ni fydd angen yr asesiad risg mwyach. | 09/09/16 | 31/12/16 | Prif Weithredwr Cynorthwyol | Prif Weithredwr Cynorthwyol i gyfarwyddo Penaethiaid Gwasanaeth. |
| **Cyllid** | | | | | | |
| 7 | Prif Gyfrifeg 1892 13/14 | 5.5 Dylai gwasanaethau TGCh barhau i symud ymlaen tuag at system wrth gefn 'SAN to SAN' ar gyfer y serfiwr Cyllid i leoliad addas oddi ar y safle yn unol â'r argymhellion blaenorol. Dylai gwasanaethau cyllid gymryd perchnogaeth o'u systemau a'u | 26/11/13 | 30/12/16 – wedi newid o 30/11/13 | Rheolwr Gwasanaeth TG a Pherfformiad | Comisiynwyd generadur brys i ddarparu pŵer os cyfyd trychineb ac edrychir ar UPS hefyd i ddarparu pŵer tra bod y generadur yn tanio. Maent hefyd yn gweithio ar fanyleb dechnegol ar gyfer cyfleuster wrth gefn mewn lleoliad oddi ar y safle a bydd yn casglu ymatebion gan gyflenwyr cyn diwedd mis Gorffennaf 2014 - ar y gweill. Ddim yn |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | data a dylent sicrhau bod systemau wrth gefn priodol i ddiogelu systemau ariannol a bod eu systemau a'u data'n cael eu hadfer yn rheolaidd. | | | | siŵr ble fydd y lleoliad oddi ar y safle. 'Roedd trafodaethau blaenorol wedi awgrymu Canolfan Hamdden David Hughes ond nid yw hynny wedi ei gadarnhau eto.<br><br>Diweddariad 30/09/14 - Prosiect 'SAN to SAN' yn mynd rhagddo o hyd ond mae'r gwariant wedi cael ei gymeradwyo - oedi oherwydd gwahanol safbwyntiau ar y fframwaith priodol i'w ddefnyddio ar gyfer caffael – y materion hyn yn cael eu datrys yn awr.<br><br>Diweddariad 16/10/14 – Cynhyrchwyd manyleb ar gyfer y cyfleuster wrth gefn ac ar hyn o bryd rydym yn siarad â'r Adran Caffael am y ffordd orau i fynd allan i wahodd tendrau. Rydym yn dal i aros am benderfyniad Corfforaethol ar leoliad y serfiwr.<br><br>Diweddariad 17/02/16 – nodwyd lleoliad addas. Prynwyd caledwedd wrth gefn newydd ond nid yw wedi cael ei osod eto. Ni ellir defnyddio'r ystafell tan ar ôl yr etholiadau. Bydd y Gwasanaeth TGCh yn gosod system wrth gefn newydd oddi ar y safle mewn lleoliad cyfagos cyn gynted ag y bydd gwasanaeth arall wedi gadael yr ystafell a nodwyd. |
| 8 | Tai Fforddiadwy, Troi Tai'n Gartrefi, Cynllun Benthyciadau Pontio 025.15/16 | 6.2a Mae llog yn cronni o daliadau llog sy'n ddyledus a dylai'r llog a gronnwyd ar y benthyciad o'r Cynllun Benthyciadau Pontio gael ei adfer, a hynny dan y telerau a'r amodau a nodir yn y cytundeb cyfleuster. | 16/12/2015 | 31/07/2016 wedi newid o 31/12/2015 | Rheolwr Refeniw a Budd-daliadau | Ailadroddwyd o Adroddiad Tai Fforddiadwy 025 2015/16 (14/12/15).<br><br>Dyddiad targed gwreiddiol: 31 /12/15. |
| 9 | Paneli Solar Cyfleuster IVC Penhesgyn 071 2016/17 | 1.3 Dylid atgoffa'r Pennaeth Gwasanaeth bod yn rhaid dilyn Rheolau Gweithdrefn Contract yr Awdurdod, sef yn benodol, na ellir | 04/10/16 | 31/12/16 | Pennaeth Adnoddau | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ymrwymo gwariant oni bai bod darpariaeth ar ei gyfer yn y cyllidebau refeniw neu gyfalaf, er mwyn diogelu enw da'r Awdurdod a sicrhau na ellir dal y Cyngor yn atebol am golled ariannol trydydd parti mewn perthynas ag ymrwymiad ariannol gwirioneddol / goblygedig sy'n ymwneud â threfniadau contract. | | | | |
| Tai | | | | | | |
| 10 | Tai Fforddiadwy, Troi Tai'n Gartrefi, Cynllun Benthyciadau Pontio – Ailadroddwyd 2016/17 | 6.2d Dylai taliadau a wneir ymlaen llaw gael eu harchwilio gan yr Adran Dai i sicrhau nad oes unrhyw achosion o dorri telerau ac amodau'r Benthyciad cyn rhyddhau taliad. | 07/12/16 | 31/12/16 | Pennaeth Tai | Ailadroddwyd o Adroddiad Tai Fforddiadwy 025 2015/16 (14/12/15).<br>Dyddiad targed gwreiddiol: 31/12/15. |
| 11 | Trefniadau Bod Ar Alwad y Tu Allan i Oriau 073 2016/17 | 1.2a Dylai gwasanaethau sicrhau bod cynlluniau i fod ar alwad yn cael eu gweithredu yn unol â pholisïau perthnasol y Cyngor a bod y taliadau a hawlir yn adlewyrchu'r cyfraddau yn y cynllun cyfredol. | 15/12/16 | 31/12/16 | Pennaeth Tai | |
| **Gwasanaethau TGCh** | | | | | | |
| 12 | Cydymffurfiaeth PCI DSS 066 2016/17 | 3.3 Dylid datblygu proses i asesu a chofnodi effaith newid y seilwaith TGCh ar gydrannau PCI DSS fel rhan o gymeradwyo a derbyn trefniadau rheoli newid. | 21/09/16 | 31/10/16 | Rheolwr Gwasanaeth a Pherfformiad TG | |
| 13 | Cydymffurfiaeth PCI DSS 066 2016/17 | 3.4 Dylai'r Awdurdod roi prawf ar gydymffurfiaeth PCI DSS unrhyw feddalwedd newydd fel rhan o'r gweithdrefnau datblygu a derbyn. | 21/09/16 | 30/09/16 | Rheolwr Gwasanaeth a Pherfformiad TG | |
| 14 | Cydymffurfiaeth PCI DSS 066 2016/17 | 3.6 Dylid cynnal sganiau rhwydwaith yn chwarterol gan werthwr sganio cymeradwy yn unol â Chanllawiau Cryno 11.2 Cyngor Safonau Diogelwch PCI | 21/09/16 | 30/09/16 | Rheolwr Gwasanaeth a Pherfformiad TG | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | |
| 15 | Trefniadau Ar Alwad y tu allan i oriau 073 2016/17 | 1.2a Dylai gwasanaethau sicrhau bod cynlluniau i fod ar alwad yn cael eu gweithredu yn unol â pholisïau perthnasol y Cyngor a bod y taliadau a hawlir yn adlewyrchu'r cyfraddau yn y cynllun cyfredol. | 15/12/16 | 31/12/16 | Pennaeth Gwasanaethau Oedolion | |
| 16 | Trefniadau Ar Alwad y tu allan i oriau 073 2016/17 | 3.2. Yn unol â rhaglen Gweithio'n Gallach y Cyngor, dylai gwasanaethau adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer gweithredu cynlluniau ar alwad i ganfod a yw'r trefniadau yn parhau i fod yn effeithiol ac yn rhoi gwerth am arian.<br>Ni ddylai system ar alwad reolaidd ond weithredu pan fo gofyn cyson a pharhaus i ddarparu gwasanaethau / ymateb y tu allan i oriau craidd. | 15/12/16 | 31/12/16 | Pennaeth Gwasanaethau Oedolion | |
| **Gwasanaethau Corfforaethol** | | | | | | |
| 17 | Trefniadau Ar Alwad y tu allan i oriau 073 2016/17 | 1.2b Dylid diweddaru Atodiad A y polisi perthnasol i adlewyrchu dyfarniad cyflog Ebrill 2016 a dylid diweddaru'r polisi'n brydlon pan ddyfernir taliadau yn y dyfodol. | 15/12/16 | 31/12/16 | Pennaeth Proffesiwn - AD | |

**Argymhellion Blaenoriaeth Ganolig gan Archwilio Mewnol sydd heb gael sylw ar 31/12/2016**

| Cyf | Adroddiad | Argymhelliad | Dyddiad yr argymhelliad | Dyddiad gweithredu y cytunwyd arno | Swyddog Cyfrifol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Corfforaethol** | | | | | | |
| 18 | Llywodraethu Gwybodaeth 009.15/16 | 1.2b Dylai rheolwyr adolygu sut rhedir contractau lle mae contractwr trydydd parti yn prosesu data personol ar ran y Cyngor i benderfynu a gorfodi Cytundeb Prosesu Data ar y contract. | 21/10/2015 | 30/09/2015 | Swyddog Gwybodaeth Corfforaethol | Mae gwaith wedi cychwyn ar y mater hwn, fodd bynnag, o ran argymhellion Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ynghylch caffael gwasanaethau, bydd angen adolygiad ehangach o'r mesurau diogelu data wrth gaffael gwasanaethau sy'n ymwneud â gwybodaeth bersonol. Mae amser yn ffactor o ran yr adolygiad y gofynnwyd amdano gan SCG oherwydd rhaid gwneud hyn cyn y gellir cwblhau'r argymhelliad. Dylid diwygio'r dyddiad targed.<br><br>15/06/16 - Dim cynnydd oherwydd mae'r ymdrechion ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar sicrhau fod DPA yn cael ei gynnwys ym mhob contract perthnasol newydd / yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol wedi bod mewn cyfarfodydd gyda'r adran Gaffael ac yn gobeithio cyflwyno adroddiad i'r UDA ynghylch rhestr wirio ar gyfer contractau yn y dyfodol agos.<br><br>Diweddariad 25/08/16 – Mae'r Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol wedi mofyn cyngor gan y Cyfreithiwr Caffael ynghylch a yw'r DPA yn ddigonol ynteu a oes angen ei adolygu. |
| 19 | Llywodraethu Gwybodaeth 009.15/16 | 1.2c Dylai'r SIRO sicrhau bod yr holl gontractau 'Categori 1' a weithredir gan y Cyngor yn cael eu cynnwys mewn Cytundebau DP | 21/10/2015 | 30/09/2015 | Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol | 15/06/16 – Perchenogion Asedau Gwybodaeth (PAG) / Penaethiaid sy'n gyfrifol am weithredu'r argymhelliad hwn. Cyflwynwyd adroddiad i'r UDA er mwyn |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | yn unol ag argymhellion Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. | | | | codi eu hymwybyddiaeth o'r mater hwn. Mae rhestr wirio yn y broses o gael ei gwblhau fel teclyn i sicrhau nad yw elfennau pwysig yn cael eu colli wrth lunio contract.<br><br>Diweddariad 25/08/16 – Mae'r Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol wedi mofyn cyngor gan y Cyfreithiwr Caffael ynghylch a yw'r DPA yn ddigonol ynteu a oes angen ei adolygu.<br><br>Diweddariad 21/10/16 - mae gwaith wedi cychwyn ar ddiwygio'r DPA. |
| 20 | Llywodraethu Gwybodaeth 009 2015/16 | 1.4a Dylai PAG sy'n gyfrifol am safleoedd y tu allan i'r pencadlys (canolfannau hamdden, sefydliadau gwasanaethau cymdeithasol ac ati) adolygu systemau rheoli data personol a chyfleusterau storio ar y safle fel y gallant roi sicrwydd ynghylch priodoldeb y mesurau sydd wedi cael eu sefydlu i storio cofnodiadau, eu symud eu cadw a'u gwaredu. | 21/10/2015 | 30/06/2016 – newid o 31/01/2016 | Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol | 10/2/16 - cynnydd gyda'r argymhelliad hwn wedi cael ei ohirio oherwydd mae capasiti wedi cael ei ddargyfeirio i weithredu Rhybudd Gorfodaeth yr ICO. Bydd yr eitem hon yn cael ei chodi gan y Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol maes o law. |
| 21 | Trefniadau Diogelu Corfforaethol 053 2016/17 | 1.1a Dylid diweddaru'r Polisi a'r Gweithdrefnau ar gyfer Plant ac Oedolion Bregus i adlewyrchu newidiadau diweddar o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a sefydlu cysylltiadau cliriach, amlycach a mwy cyfredol gyda Pholisi Interim Cymru ar gyfer Diogelu Oedolion Bregus a Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan er mwyn sicrhau arfer cyson a chywir. | 09/09/16 | 30/09/16 | Rheolwr Gwasanaeth Diogelu a Sicrhau Ansawdd | |
| 22 | Trefniadau Diogelu Corfforaethol 053 | 1.1c Dylid diweddaru Polisi Amddiffyn Plant a Pholisi | 09/09/16 | 31/10/16 | Pennaeth Dysgu | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2016/17 | Recriwtio'r Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes i adlewyrchu canllawiau 'Cadw Dysgwyr yn Ddiogel' a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2015; Dylid ymgorffori goblygiadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn y polisi unwaith y bydd canllawiau gan Lywodraeth Cymru wedi eu cyhoeddi.<br><br>Dylai cyfeiriadau at bolisïau'r Cyngor ar Recriwtio Diogel hefyd gael eu diweddaru. | | | | |
| 23 | Trefniadau Diogelu Corfforaethol 053 2016/17 | 1.1d Rhoi cyhoeddusrwydd i'r Polisïau Diogelu diwygiedig a'u hyrwyddo a'u dosbarthu'n eang | 09/09/16 | 30/09/16 | Rheolwr Gwasanaeth Diogelu a Sicrhau Ansawdd | |
| 24 | Trefniadau Diogelu Corfforaethol 053 2016/17 | 2.1a .Dylai'r Cyngor ddosbarthu a diweddaru gwybodaeth yn rheolaidd am benodiadau corfforaethol (aelod arweiniol/ uwch swyddog arweiniol) mewn perthynas â diogelu i'r holl staff a rhanddeiliaid.<br>Dylid dosbarthu manylion hefyd ynghylch y Rheolwr Diogelu a Sicrhau Ansawdd, y Cydlynydd Oedolion Bregus a Swyddogion Diogelu o fewn pob gwasanaeth. Dylai'r wybodaeth hon gael ei chynnwys ar y fewnrwyd a'r wefan allanol. | 09/09/16 | 31/07/16 | Rheolwr Gwasanaeth Diogelu a Sicrhau Ansawdd | |
| 25 | Trefniadau Diogelu Corfforaethol 053 2016/17 | 2.1b Dylid datblygu safle Diogelu Corfforaethol ar fewnrwyd y Cyngor i gynnwys y polisi corfforaethol / Cynllun Gweithredu ar gyfer Trefniadau Diogelu Corfforaethol / manylion am gylch | 09/09/16 | 30/09/16 | Rheolwr Gwasanaeth Diogelu a Sicrhau Ansawdd | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | gorchwyl a gwaith y Bwrdd diogelu Plant | | | | |
| 26 | Trefniadau Diogelu Corfforaethol 053 2016/17 | 2.1c Dylid diweddaru tudalennau gwefan gyhoeddus y Cyngor (diogelu plant ac oedolion) i adlewyrchu'r trefniadau llywodraethu rhanbarthol newydd ar gyfer diogelu plant ac oedolion, a chynnwys gwybodaeth ychwanegol am ddyletswyddau i adrodd i'r Awdurdod Lleol ac amlygu ymrwymiad y Cyngor i ddiogelu | 09/09/16 | 30/06/16 | Rheolwr Gwasanaeth Diogelu a Sicrhau Ansawdd | |
| 27 | Trefniadau Diogelu Corfforaethol 053 2016/17 | 4.3a Dylai'r Cyngor lunio rhestr swyddogol o swyddi a ddylai fod yn destun gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) | 09/09/16 | 31/12/16 | Prif Weithredwr cynorthwyol | Yr arfer presennol yw bod rheolwyr yn sicrhau bod gofynion GDG yn cael eu cynnwys yn y Disgrifiad Swydd ac mae AD yn rhoi'r wybodaeth hon i mewn i gronfa ddata ganolog o swyddi y mae angen gwiriadau GDG ar eu cyfer - yn dibynnu ar wybodaeth yn y disgrifiadau swydd a geir gan y gwasanaethau. |
| 28 | Trefniadau Diogelu Corfforaethol 053 2016/17 | 4.3d. Dylid adolygu polisi GDG y Cyngor i sicrhau bod canllawiau mewn perthynas â swyddi y mae angen gwiriad DGD ar eu cyfer yn gydnaws â darpariaethau cyfreithiol presennol. | 09/09/16 | 31/12/16 | Pennaeth Proffesiwn - AD | |
| 29 | Trefniadau Diogelu Corfforaethol 053 2016/17 | 4.3e. Dylai Penaethiaid Gwasanaeth sicrhau bod y rheini sy'n gwirio tystiolaeth (dilysu ID ar gyfer prosesu cais GDG) yn derbyn hyfforddiant ffurfiol i sicrhau ymwybyddiaeth a defnydd cywir o ganllawiau GDG cyfredol. | 09/09/16 | 31/12/16 | Rheolwr Gwasanaeth Diogelu a Sicrhau Ansawdd | I gael sylw trwy'r Gweithgor ar gyfer Swyddogion Diogelu Arweiniol |
| 30 | Trefniadau Diogelu Corfforaethol 053 2016/17 | 5.1b Dylai'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol adolygu'r gronfa ddata integredig o dro i dro i sicrhau y parheir i gydymffurfio â pholisïau recriwtio diogel ar draws yr holl wasanaethau. | 09/09/16 | 31/12/16 | Prif Weithredwr Cynorthwyol | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 31 | Trefniadau Diogelu Corfforaethol 053 2016/17 | 7.1a Dylai'r cerdyn sgorio corfforaethol gynnwys manylion ynghylch cael a gwirio geirdaon mewn perthynas â swyddi sy'n ymwneud â gweithgareddau a reoleiddir a darparu hyfforddiant diogelu i wella'r trefniadau i fonitro cydymffurfiaeth y Cyngor â pholisïau recriwtio diogel. Dylai'r cerdyn sgorio corfforaethol hefyd gynnwys manylion ynghylch a gwblhawyd asesiadau risg ffurfiol ac a oes mesurau yn eu lle cyn i weithwyr ddechrau gweithio mewn amgylchiadau eithriadol lle nad oes gwiriad GDG wedi dod i law. | 09/09/16 | 31/12/16 | Rheolwr Rhaglen a Chynllunio Busnes. | |
| **Cyllid** | | | | | | |
| 32 | Credydwyr.<br><br>Adroddiad dilyn-i-fyny 042 2015/16 | 1.1a Dylai'r Adran Gyllid sicrhau bod gweithdrefnau ar gyfer creu ceisiadau am dâl wedi eu dogfennu a'u cyfleu i'r Penaethiaid Gwasanaeth i sicrhau y dilynir gweithdrefnau a'u bod yn cael eu gweithredu'n gyson i osgoi camddefnydd o daliadau.<br>Dylid rhoi ystyriaeth i ddatblygu CLG priodol i'w gytuno rhwng y Gwasanaethau a'r Adain Credydwyr i sicrhau bod Gwasanaethau yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Adran Credydwyr mewn perthynas â Cheisiadau am Daliadau ar CIVICA. Dylai'r CLG hefyd nodi sut i ddefnyddio PRQ a'r cyfyngiadau, creu cofnodion i gyflenwyr ar y system, addasiadau ac unrhyw gytundebau eithrio e.e. caniatâd i eithrio anfonebau neu archebion sy'n cael eu prosesu ar | 24/02/16 | 31/12/16 – wedi ei newid o 30/09/16 | Rheolwr Cyllid | Ailadroddwyd o adroddiad Credydwyr 1981 2014/15<br><br>Dyddiad targed gwreiddiol: 30/09/15 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | CIVICA. | | | | |
| 33 | Credydwyr.<br>Adroddiad Dilyn-i-fyny 042 2015/16 | 1.1b Dylid adolygu Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gywir ac yn gyson â gweithdrefnau ariannol cyfredol yn dilyn mabwysiadu'r system CIVICA. | 24/02/16 | 31/12/16 – wedi newid o 30/09/16 | Rheolwr Cyllid | Ailadroddwyd o adroddiad Credydwyr 1981 2014/15.<br>Dyddiad targed gweiddiol: 30/09/15. |
| 34 | Credydwyr .<br>Adroddiad Dilyn-i-fyny 042 2015/16 | 3.1 Dylid sefydlu nodiadau Gweithdrefn ar gyfer y swyddogaeth Credydwyr, prosesu anfonebau, taliadau, eitemau na thalwyd amdanynt, (rhai a wrthodwyd gan BACS & sieciau a ddychwelwyd / na chawsant eu talu) a storio anfonebau / dogfennaeth. Dylid sefydlu nodiadau gweithdrefn ar gyfer Gwasanaethau i sicrhau bod cyfrifoldebau wedi eu hamlinellu'n glir a bod dyletswyddau staff credydwyr a staff gwasanaethau wedi eu gwahanu’n briodol.<br>Dylid ffurfioli gweithdrefnau ar gyfer mewnbynnu manylion credydwr newydd a newid manylion cyfredol a’u cynnwys yn y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n datblygu ar gyfer yr Adain Credydwyr. Dylid dogfennu’n ffurfiol y gweithdrefnau ar gyfer ymdrin ag archebion prynu diwygiedig a’u cyfleu i'r rheolwyr perthnasol o fewn yr awdurdod. | 24/02/16 | 31/12/16 - newid o 30/09/16 | Rheolwr Cyllid | Ailadroddwyd o Archwiliad Credydwyr 1981 2014/15<br>Dyddiad targed gwreiddiol: 30/09/15 |
| 35 | Credydwyr Archwiliad dilyn-i-fyny 042 2015/16 | 4.3 Dylai Cyllid ofyn i gynnal prawf ar drefniadau i adfer o gopïau wrth gefn i sicrhau bod y trefniant yn llwyddiannus ac yn gyflawn. | 24/02/16 | 31/12/16 – wedi newid o 30/09/16 | Rheolwr Cyllid | Ailadroddwyd o Archwiliad Credydwyr 1981 2014/15<br>Dyddiad targed gwreiddiol: 30/09/15 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 36 | Y Dreth Gyngor 036 2015/16 | 3.2c Dylai Ffurflenni i hysbysu am ddeiliadaeth sengl ac i roi gwybod am newidiadau mewn amgylchiadau fod ar gael ar wefan y Cyngor / dylent gynnwys datganiad bod y wybodaeth a ddarperir yn gywir. | 30/03/16 | 24/12/16 – wedi newid o 30/06/16 | Rheolwr Refeniw a Budd-daliadau | Nodwyd bod Integreiddio e-Ffurflenni i'r systemau Northgate yn flaenoriaeth o fewn y cynllun Darparu Gwasanaeth – datblygwyd ffurflenni Victoria a bwriedir iddynt fod yn gwbl weithredol erbyn Mehefin 2016. Bydd y crynodeb uchod yn cael sylw fel rhan o brosiect ehangach i osod nifer o ffurflenni electronig ar ein gwefan. Mae mwy o frys bellach am hyn yn wyneb y ffaith y bydd Cyswllt Môn yn agor gyda hyn, ac oherwydd y bydd eu staff yn gallu cyfeirio cwsmeriaid yn y pen draw i lenwi'r ffurflenni priodol ar-lein. Ein nod yw cael cyfres gynhwysfawr o ffurflenni ar ein gwefan a fydd, gobeithio, yn lleihau'r amser y mae'n rhaid i staff dreulio gyda chwsmeriaid, ac a fydd hefyd yn grymuso'r cwsmeriaid hynny i fedru darparu gwybodaeth neu wneud cais am wasanaethau, gostyngiadau, eithriadau ac ati drostynt eu hunain. |
| 37 | Mân-ddyledwyr Archwiliad dilyn-i-fyny 051 2015/16 | 3.1a Dylid cymryd camau adennill yn unol â Pholisïau Bilio, Mân Ddyledwyr, Casglu ac Adennill y Cyngor | 20/06/16 | 31/12/16 | Rheolwr Refeniw a Budd-daliadau | Ailadroddwyd o Archwiliad Mân-ddyledwyr 1982 2014/15<br><br>Dyddiad targed gwreiddiol: 30/04/15 |
| 38 | Mân-ddyledwyr Archwiliad dilyn-i-fyny 051 2015/16 | 3.1b Dylai cyfrifon mân-ddyledwyr y lle penderfynwyd atal camau i adennill y ddyled gael eu hadolygu'n rheolaidd a dylid gosod terfyn amser ar gyfer gwasanaethau i ateb ymholiadau cwsmeriaid cyn tynnu'r incwm o'r codau incwm gwasanaeth. | 20/06/16 | 31/12/16 | Rheolwr Refeniw a Budd-daliadau | Ailadroddwyd o Archwiliad Mân-ddyledwyr 1982 2014/15<br><br>Dyddiad targed gwreiddiol: 30/06/15 |
| 39 | Mân-ddyledwyr Archwiliad dilyn-i-fyny 051 2015/16 | 3.2a Dylid rhedeg adroddiadau rheolaidd ar hen anfonebau er mwyn darganfod unrhyw batrymau ac i werthuso effeithiolrwydd y trefniadau casglu ac adennill dyledion o fewn yr Awdurdod. | 20/06/16 | 31/12/16 | Rheolwr Refeniw a Budd-daliadau | Ailadroddwyd o archwiliad Mân-ddyledwyr 1982 2014/15<br><br>Dyddiad targed gwreiddiol: 30/09/15 |
| 40 | Mân Ddyledwyr Archwiliad dilyn-i- | 3.2b Dylid rhoi sylw i anfonebau sydd heb eu talu ar yr hen system | 20/06/16 | 16/12/16 | Rheolwr Refeniw a | Ailadroddwyd o Archwiliad Mân-ddyledwyr |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | fyny 051 2015/16 | Mân-ddyledwyr hyd nes y byddant wedi eu cau. | | | Budd-daliadau | 1982 2014/15<br><br>Dyddiad targed gwreiddiol: 31/10/15 |
| 41 | Mân Ddyledwyr Archwiliad dilyn-i-fyny 051 2015/16 | 3.4 Dylid cyflwyno'r gweithdrefnau canlynol er mwyn darparu rheolaethau ychwanegol dros atal camau adennill.<br><br>Dylid defnyddio'r cyfleuster yn CIVICA i osod terfynau amser priodol ar ataliadau ym mhob achos.<br><br>Dylid cofnodi'r rheswm dros atal camau adennill o fewn y cyfleuster nodiadau ar y system.<br><br>Dylai swyddog perthnasol adolygu adroddiad ar yr holl ataliadau yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr holl resymau dros atal yn dal i fod yn berthnasol.<br><br>Dylid cadw dogfennaeth sy'n cefnogi'r penderfyniad i atal camau adennill ar y ffeil, gan gynnwys y rheswm dros atal ac enw a llofnod y swyddog sydd wedi awdurdodi. | 20/06/16 | 31/12/16 | Rheolwr Refeniw a Budd-daliadau | Ailadroddwyd o Archwiliad Mân-ddyledwyr 1982 2014/15<br><br>Dyddiad targed gwreiddiol: 30/06/15 |
| 42 | Mân-ddyledwyr Archwiliad dilyn-i-fyny 051 2015/16 | 4.1 Dylid cysoni'r system Mân-ddyledwyr a'r Cyfriflyfr Cyffredinol yn brydlon bob mis o ddiwedd y cyfnod. | 20/06/16 | 31/12/16 | Rheolwr Refeniw a Budd-daliadau | Ailadroddwyd o Archwiliad Mân-ddyledwyr 1982 2014/15<br><br>Dyddiad targed gwreiddiol : 30/04/15 |
| 43 | Trefniadau Yswiriant 074 2016/17 | 3.1.7. Dylid sicrhau bod premiymau yswiriant yn cael eu codi'n brydion yn unol â'r cytundeb prydlesu | 15/11/16 | 31/12/16 | Rheolwr Refeniw a Budd-daliadau | |
| **Tai** | | | | | | |
| 44 | Digartrefedd 1868.14/15 | 3.1 Dylid ailddyrannu'n ffurfiol ddyletswyddau allweddol y Swyddog Llety gan gynnwys trefnu arolygiadau blynyddol o adeiladau a ddefnyddir i ddarparu Gwely a Brecwast neu lety brys ar | 23/12/2014 | 30/10/2015 wedi newid o 31/03/2015 | Prif Swyddog Tai | Fel rhan o Amodau Trwyddedu, archwilir llety Gwely a Brecwast gan yr Adran Iechyd yr Amgylchedd.<br><br>Gohiriwyd y weithred hon nes bod y Tîm Opsiynau Tai newydd wedi ei sefydlu - |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | gyfer ymgeiswyr digartref. | | | | dyddiad cychwyn 10/08/2015 – mae’r weithred hon yn dod o fewn cylch gwaith y Swyddogion Datrysiadau (dal angen penodi i 1 swydd). Mae swyddogion yn derbyn hyfforddiant ar hyn o bryd.<br><br>Bydd y defnydd o lety Gwely a Brecwast yn awr yn cael ei ddylanwadu gan y meini prawf 'addasrwydd' fel y cyfeirir atynt yn Neddf Tai Cymru 2014, a ddaeth i rym 27/04/2015.<br><br>Mae’r gweithdrefnau a roddir ar waith gyda’r Rheolwr Opsiynau Tai i sicrhau cydymffurfiaeth yn cynnwys:<br><br>- Ffurfioli'r weithdrefn arolygu (arolygiadau blynyddol ac arferol)<br><br>- Creu cronfa ddata o'r holl lety Gwely a Brecwast a ddefnyddir i gynnwys disgrifiad o’r eiddo a’r ystafell a’r mwynderau a’r cyfleusterau sydd ar gael ym mhob llety.<br><br>Diweddariad 08/08/16 – Mae llety Gwely a Brecwast sy’n parhau i gael ei ddefnyddio wedi cael ei archwilio gan yr Awdurdodau perthnasol (lleolir rhai yn all-sirol).<br><br>Oherwydd diffyg capasiti staffio yn y Tîm Opsiynau Tai a’r ffaith nad yw swydd y Swyddog Cyswllt Landlordiaid Preifat wedi ei llenwi, nid yw’r cam hwn wedi ei weithredu. Fodd bynnag, mae swyddogion yn gyfarwydd gyda’r eiddo a’r cyfleusterau sydd yn yr eiddo a ddefnyddir. Bydd adnoddau ychwanegol ar gael o fis Medi 2016 sy’n golygu y gellir canolbwyntio’n fanwl ar y maes hwn. |
| 45 | Digartrefedd 1868.14/15 | 6.5 Dyliai rheolwyr ailgyflwyno gwiriadau ffurfiol i sicrhau bod pobl | 23/12/2014 | 30/10/2015 wedi newid o | Prif Swyddog Tai | Mae'n cynnwys archwiliadau rheolaidd o lety Gwely a Brecwast. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | y dal i fyw mewn llety Gwely a Brecwast y telir amdano er mwyn sicrhau mai dim ond taliadau dilys a wneir. | | 31/01/2015 | | Nid yw'r agwedd hon ar reoli llety Gwely a Brecwast wedi cael sylw oherwydd pwysau staffio yn y tîm digartrefedd (fel yr oedd) a pharatoi ar gyfer gweithredu Deddf Tai (Cymru) 2014.<br><br>Mae’r weithred hon yn rhan o rôl y Tîm Opsiynau Tai sydd newydd gael ei alstrwythuro a bydd y dyletswyddau hyn yn cael eu rhoi i'r Swyddogion Datrysiadau o fewn y tîm.<br><br>Diweddariad 08/08/16 - Mae’r defnydd o lety Gwely a Brecwast wedi gostwng yn sylweddol. Oherwydd diffyg capasiti staffio yn y Tîm Opsiynau Tai a’r ffaith nad yw swydd y Swyddog Cyswllt Landlordiaid Preifat wedi ei llenwi, nid yw’r cam hwn wedi ei weithredu. Fodd bynnag, mae swyddogion yn gyfarwydd gyda’r eiddo a’r cyfleusterau sydd yn yr eiddo a ddefnyddir. Bydd adnoddau ychwanegol ar gael o fis Medi 2016 sy’n golygu y gellir canolbwyntio’n fanwl ar y maes hwn. |
| **Gwasanaethau TGCh** | | | | | | |
| 46 | Prif Gyfrifo 040 2015/16 | 2.2.2. Dylai gweithdrefnau rheoli cyfrineiriau adlewyrchu polisi TGCh yr Awdurdod ar y rheolaeth mynediad rhesymegol lle bo modd ar gyfer defnyddwyr nad ydynt ar y rhwydwaith | 18/04/16 | 31/12/16 | Rheolwr Trawsnewid Busnes TGCh | |
| **Cynllunio** | | | | | | |
| 47 | Ffioedd a Thaliadau Ceisiadau Cynllunio 063 2016/17 | 2.1b Dylid sicrhau bod penderfyniad yn cael ei wneud ar bob cais cynllunio o fewn y cyfnod penderfynu statudol (oni bai fod rheswm dilys i gael estyniad). (Y targed cenedlaethol yw 80% o fewn 8 wythnos. Yn ogystal, mae cyfnod statudol o 16 wythnos ar | 12/08/16 | 30/09/16 | Rheolwr Datblygu cynllunio | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | gyfer rhai categorïau o geisiadau). | | | | |
| 48 | Ffioedd Rheoliadau Adeiladu – Arolygu a Gorfodaeth 061 2016/17 | 1.4a Dylid datblygu gweithdrefnau i nodi a delio ag achosion o dorri rheoliadau / achosion posib o dorri rheoliadau er mwyn sicrhau y cydymffurfir â Rheoliadau Adeiladu ac i gynnal safonau adeiladu. | 31/08/16 | 31/12/16 | Arweinydd Tîm Rheoliadau Adeiladu | |
| 49 | Ffioedd Rheoliadau Adeiladu - Arolygu a Gorfodaeth 061 2016/17 | 1.4b Dylai'r gwasanaeth edrych ar ymarferoldeb defnyddio ffurflenni electronig i roi gwybod ar-lein am achosion honedig o dorri rheoliadau. | 31/08/16 | 31/12/16 | Arweinydd Tîm Rheoliadau Adeiladu | |
| 50 | Ffioedd Rheoliadau Adeiladu - Arolygu a Gorfodaeth 061 2016/17 | 2.9 Dylid gwirio o bryd i'w gilydd bod yr incwm Rheoli Adeiladu sydd wedi ei godio i'r lejer yn cyd-fynd â'r incwm y cofnodwyd iddo gael ei gasglu a'i anfonebu ar y system Rheoli Adeiladu (CIVICA). | 31/08/16 | 31/12/16 | Arweinydd Tîm Rheoliadau Adeiladu | |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | |
| 51 | Arian Parod - Ysgol Llanfairpwll 032 2015/16 | 1 Os bydd y system o gasglu arian parod drwy'r blychau post y gellir eu cloi o fewn pob ystafell ddosbarth yn Ysgol Gynradd Llanfairpwll yn llwyddiannus, yna dylid rhoi ystyriaeth i fabwysiadu'r system hon fel arfer gorau yn yr holl ysgolion cynradd ar yr Ynys er mwyn sicrhau y gellir adneuo arian ysgolion yn ddiogel | 24/02/16 | 30/09/16 | Swyddog addysg | Swyddog Addysg (Ysgolion Cynradd) a'r Pennaeth i ystyried dod â'r mater hwn i sylw'r Penaethiaid eraill drwy Grŵp Strategol i godi ymwybyddiaeth / rhannu gwersi a ddysgwyd o'r profiad hwn.<br><br>Diweddariad 31/10/16 - Swyddog Addysg i rannu profiadau Ysgol Llanfairpwll gyda'r Grŵp Strategol ac wedyn gyda phob ysgol ar sail yr adborth gan Ysgol Llanfairpwll, sef:<br>• A oes blychau post y gellir eu cloi yn y dosbarthiadau? Oes<br>• Os oes, a ydynt yn effeithiol? ~ YDYNT - EFFEITHIOL IAWN<br>• A ddylem ni hyrwyddo'r trefniant hwn i bob ysgol? DYLEM<br><br>Os na ddylem, pam? Mae angen prynu rhai o ansawdd da, sy'n gost i'r ysgol. |
| 52 | Ysgol Gynradd Bodedern 029 | 5.4.1 Dylid sicrhau bod rhiant neu | 29/02/16 | 31/10/16 | Pennaeth | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2015/16 | warchodwr yn llofnodi'r slip sy'n cadarnhau eu bod yn derbyn y telerau ac amodau sydd ynghlwm â derbyn gwersi cerdd. | | | | | |
| 53 | Ysgol Gynradd Bodedern 029 2015/16 | 5.5.1 Dylid sicrhau bod ffurflenni adolygiad tâl athrawon yn cael eu hanfon ymlaen yn brydlon i'r Tîm Contractau a Phensiynau. | 29/02/16 | 31/03/16 | Pennaeth | | |
| 54 | Ysgol Gynradd Bodedern 029 2015/16 | 5.6.1 Dylai'r Corff Llywodraethol benodi Archwiliwr y Gronfa Ysgol yn ffurfiol a bod hynny'n cael ei nodi yng nghofnodion y cyfarfod. | 29/02/2016 | 31/03/2016 | Pennaeth | | |
| 55 | Ysgol Gynradd Bodedern 029 2015/16 | 5.7.1 Mae angen i'r ysgol gofrestru gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth yn unol â gofynion y Ddeddf Diogelu Data 1998. | 29/02/2016 | 31/03/2016 | Pennaeth | | |
| 56 | Ysgol Gynradd Bodedern 029 2015/16 | 5.8.1 Dylid llunio Polisi CCTV a sicrhau bod y system yn cyrraedd gofynion statudol cyfredol. Dylid cynnwys yn ogystal yr angen am asesiad blynyddol o berfformiad yr offer. | 29/02/2016 | 31/03/2016 | Pennaeth | | |
| 57 | Ysgol Gynradd Bodedern 029 2015/16 | 5.10.1 Dylid sicrhau bod cyfansoddiad y Corff Llywodraethol yn cydymffurfio â gofynion statudol Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a gynhelir (Cymru) 2005 ar gyfer ysgolion sydd â dros 100 o ddisgyblion cofrestredig. | 29/02/16 | 31/07/16 | Pennaeth | | |
| 58 | Ysgol Talwrn 029 2015/16 | 4.6.1 Dylid llunio asesiad risg ar gyfer y risgiau sydd ynghlwm ag ymateb i'r | 15/03/2016 | 31/03/2016 | Pennaeth | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | larwm diogelwch pan fo'n canu. | | | | |
| 59 | Ysgol Llanerchymedd 058 2016/17 | 4.1.1 Gan edrych i'r dyfodol, dylai'r ysgol gwblhau'r ffurflen hysbysu archeb o flaen llaw ym mhob achos, nid ar ôl derbyn yr anfoneb neu'r nwyddau. Mewn achos o argyfwng gellir rhoddi archeb ar lafar a rhyddhau archeb ysgrifenedig yn ystod y diwrnod gwaith nesaf. | 10/05/16 | 30/09/16 | Pennaeth | |
| 60 | Ysgol Llanerchymedd 058 2016/17 | 4.5.1 Dylid sicrhau fod polisi rhyngrwyd yn cael ei gymeradwyo gan y Corff Llywodraethol yn flynyddol yn unol â chanllawiau'r Cyngor. | 10/05/16 | 30/09/16 | Pennaeth | |
| 61 | Ysgol y Graig 056 2016/17 | 4.1.1 Dylid sicrhau fod canllawiau'r Adran Addysg yn parhau i gael eu dilyn a bod yr ysgol yn ceisio lleihau'r ôl-ddyled. | 14/06/16 | 30/09/16 | Pennaeth | Bydd system taliadau ar-lein yn dod i rym Medi 2016 gyda'r bwriad o leihau ôl-ddyledion.<br>Bydd yr ysgol yn cyflogi swyddog cynnal ysgol o Medi 2016 i gefnogi hefo monitro ôl-ddyledion. |
| 62 | Ysgol Llanfair PG 057 2016/17 | 4.5.1 Dylai'r ysgol sicrhau fod cofnodion yn cael eu diweddaru'n flynyddol a bod pob aelod o staff yn cwblhau "Datganiad i Yrwyr Cerbydau Preifat neu'r Cyngor". | 15/06/2016 | 30/06/2016 | Pennaeth | |
| 63 | Dilyniant i Archwiliadau Ysgolion (Ysgol Bodorgan) 050 2015/16 | 3.1.2 Dylai'r Pennaeth sicrhau fod clerc cinio'r ysgol yn gweinyddu'r system incwm prydau bwyd yn briodol, yn unol â chanllawiau ac yn derbyn hyfforddiant os oes angen. | 15/06/16 | 31/07/16 | Pennaeth | Wedi ei ail-adrodd o argymhelliad 2.1.2 yn adroddiad archwilio 2013/14 (1918 2013/14). Y dyddiad targed gwreiddiol oedd 31/12/13. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 64 | Dilyniant i Archwiliadau Ysgolion (Ysgol Bodorgan) 050 2015/16 | 3.1.6 Dylid sicrhau bod y cofnod misol CT182a yn cael ei gwblhau'n gywir a'i arwyddo gan y Pennaeth ar ôl y bancio diwethaf i gadarnhau cywirdeb y wybodaeth. | 15/06/2016 | 30/06/2016 | Pennaeth | Wedi ei ail-adrodd o argymhelliad 4.1.6 yn adroddiad archwilio 2013/14 (1918 2013/14). Y dyddiad targed gwreiddiol oedd 31.12.13. |
| 65 | Dilyniant i Archwiliadau Ysgolion (Ysgol Bodorgan) 050 2015/16 | 3.1.9 Dylai'r Pennaeth gynnal gwiriadau goruchwyliol mewn perthynas ag incwm cinio ysgol yn wythnosol ac yn fisol heb rybudd yn unol â chanllawiau'r Adran Addysg. | 15/06/16 | 30/06/16 | Pennaeth | Wedi ei ail-adrodd o argymhelliad 4.1.9 yn adroddiad archwilio 2013/14 audit report (1918 2013/14). Y dyddiad targed gwreiddiol oedd 31/12/13. |
| 66 | Dilyniant i Archwiliadau Ysgolion (Ysgol Bodorgan) 050 2015/16 | 3.1.10 Dylid sicrhau fod materion cyllidebol yn cael eu trafod yn rheolaidd gan y Llywodraethwyr. Awgrymir y dylai bod Cyllid yn un o'r eitemau ar yr agenda ym mhob un o'r cyfarfodydd er mwyn sicrhau fod cyfle i gael trafodaeth a bod yr is-banel Cyllid yn adrodd yn ôl i'r Corff lawn yn rheolaidd. | 15/06/16 | 31/07/16 | Pennaeth | Argymhelliad newydd. |
| 67 | Dilyniant i Archwiliadau Ysgolion (Ysgol Bodorgan) 050 2015/16 | 3.1.18 Dylid sicrhau bod cyfansoddiad y Corff Llywodraethu yn bodloni gofynion yr Offerennau Statudol perthnasol. | 15/06/2016 | 30/06/2016 | Pennaeth | Wedi ei ail-adrodd o argymhelliad 4.7.1 yn adroddiad archwilio 2013/14 (1918 2013/14). Y dyddiad targed gwreiddiol oedd 31/01/14. |
| 68 | Dilyniant i Archwiliadau Ysgolion (Ysgol Henblas) 050 2015/16 | 3.2.2 Dylid sicrhau fod y gofrestr Athrawon Llanw yn gyflawn ac yn cael ei chysoni i adroddiadau cyllidol y Cyngor i sicrhau cywirdeb y cyfrifon. | 15/06/16 | 31/07/16 | Pennaeth | Wedi ei ail-adrodd o argymhelliad 4.2.1 yn adroddiad archwilio 2014/15 (1960 2014/15). Y dyddiad targed gwreiddiol oedd 31/10/14. |
| 69 | Dilyniant i Archwiliadau Ysgolion (Ysgol Henblas) 050 2015/16 | 3.2.5 Dylai'r ysgol sicrhau cydymffurfiaeth lawn gyda Gweithdrefnau Rheoli Fflyd a Gyrwyr yr Awdurdod. | 15/06/16 | 31/07/16 | Pennaeth | Wedi ei ail-adrodd o argymhelliad 4.5.1 yn adroddiad archwilio 2014/15 (1960 2014/15). Y dyddiad targed gwreiddiol oedd 30/09/14. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 70 | Dilyniant Archwiliadau Ysgolion 050 2015/16 | 3.3.10 Dylai'r Gwasanaeth Addysg fonitro'r ffurflenni aelodaeth cyrff llywodraethu sydd yn cael eu dychwelyd a gwirio'r wybodaeth i sicrhau bod pob categori o lywodraethwr yn cael ei gynrychioli a bod lefel y gynrychiolaeth yn gyson â'r egwyddorion arweiniol; dylid dilyn i fyny ar unrhyw amrywiant i sicrhau bod trefniadau llywodraethol priodol o fewn yr ysgolion. | 15/06/16 | 31/12/16 | Pennaeth Dysgu | Argymhelliad newydd. |
| 71 | Dilyniant Ysgol Cemaes 065 2016/17 | 4.1.3 Dylai'r ysgol ddilyn canllawiau'r Adran Addysg ar gasglu ôl-ddyledion incwm prydau ysgol ac ymgymryd â chamau buan i sicrhau nad ydynt yn codi i lefel na all y rhiant dalu. | 19/09/16 | 23/09/16 | Pennaeth | Wedi ei ailadrodd o Archwiliad Ysgol Cemaes 028 2015/16<br><br>Dyddiad targed gwreiddiol: 31/01/2016. |
| 72 | Ysgol Cemaes 028 2015/16 | 4.2.1 Dylai'r ysgol gwblhau ffurflen hysbysu archeb o flaen llaw ym mhob achos, nid ar ôl derbyn yr anfoneb neu'r nwyddau. Mewn achos o argyfwng gellir rhoddi archeb ar lafar a rhyddhau archeb ysgrifenedig yn ystod y diwrnod gwaith nesaf. | 19/09/2016 | 19/09/2016 | Pennaeth | Wedi ei ailadrodd o Archwiliad Ysgol Cemaes 028 2015/16<br><br>Dyddiad targed gwreiddiol: 31/01/2016. |
| 73 | Ysgol Cemaes 028 2015/16 | 4.2.2 Cyn talu unrhyw anfoneb dylid sicrhau bod y blychau perthnasol ar y ffurflen hysbysu archeb wedi'u cwblhau, yn unol â'r gweithdrefnau penodedig, i dystiolaethu bod y profion rhag ardystiol priodol wedi'u cyflawni ac i gynnal trywydd archwilio. Yr unig eithriad yw mewn argyfwng neu waith sydd angen ei gwblhau a'i awdurdodi o fewn y diwrnod canlynol. | 19/09/2016 | 19/09/2016 | Pennaeth | Wedi ei ailadrodd o Archwiliad Ysgol Cemaes 028 2015/16<br><br>Dyddiad targed gwreiddiol: 31/01/2016. |

ATODIAD F

# RHESTR O ARCHWILIADAU DILYN I FYNY

| | Disgrifiad | Dyddiad yr Archwiliad | Dyddiad Dilyniant Fyny | Nifer yr Argymhellion | Argymhellion sy'n parhau i fod angen sylw ac ar y gweill | Uchel | Canolig | Isel | Barn Archwilio Wreiddiol | Barn Archwilio Ddiwygiedig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Argymhellion Ysgolion – Ysgol Pentraeth Dilyniant | Mawrth 15 | Mehefin 16 | 11 | 6 (3 Ar y Gweill) | 0 | 6 | 0 | Rhesymol | Rhesymol |
| 2 | Argymhellion Ysgolion – Ysgol Henblas Dilyniant | Medi 14 | Mehefin 16 | 5 | 2 (2 Ar y Gweill) | 0 | 1 | 1 | Sylweddol | Sylweddol |
| 3 | Argymhellion Ysgolion – Ysgol Bodorgan Dilyniant | Awst 15 | Mehefin 16 | 19 | 7 | 0 | 6 | 1 | Rhesymol | Rhesymol |
| 4 | Fframwaith Rheoli Risg – Dilyniant | Medi 15 | Mehefin 16 | 3 | 1 | 0 | 1 | 0 | Rhesymol | Rhesymol |
| 5 | Mân-ddyledwyr Dilyniant | Ebrill 15 | Mehefin 16 | 18 | 9 (3 Ar y Gweill) | 0 | 6 | 3 | Cyfyngedig | Cyfyngedig |
| 6 | Ysgol Cemaes Dilyniant | Hydref 15 | Gorffennaf 16 | 14 | 5 (1 Ar y Gweill) | 0 | 3 | 2 | Cyfyngedig | Rhesymol |
| 7 | Partneriaethau Dilyniant | Chwefror 16 | Rhagfyr 16 | 6 | 4 (2 Ar y Gweill) | 3 | 1 | 0 | Cyfyngedig | Rhesymol |
| 8 | Tai Fforddiadwy, Troi'n Tai'n Gartrefi, Cynllun Benthyciadau Ail Dilyniant | Rhagfyr 15 | Rhagfyr 16 | 18 | 9 (6 Ar y Gweill) | 3 | 3 | 3 | Cyfyngedig | Rhesymol |
| 9 | Adfer TGCh ar ôl Trychineb Ail Dilyniant | Mawrth 16 | Rhagfyr 16 | 8 | 7 (6 Ar y Gweill) | 4 | 3 | 0 | Rhesymol | Rhesymol |
| 10 | Parhad Busnes Ail Dilyniant | Mawrth 16 | Rhagfyr 16 | 5 | 2 Ar y Gweill | 1 | 1 | 0 | Rhesymol | Sylweddol |

**CRYNODEB O YMCHWILIADAU ARBENNIG – 1 EBRILL 2016 I 31 AWST 2016**

| Rhif y Dasg | Math o Ddigwyddiad | Nifer y Dyddiau | Sylwadau / Canlyniad |
|---|---|---|---|
| 055.16/15 | Dwyn arian, lladrad, Ysgol Llannerch-y-medd | 7.36 | Lladrad yn Ysgol Llannerch-y-medd wedi i rywun ddwyn y goriadau i'r neuadd gymunedol ac ystafell y Mudiad Meithrin o gartref un o drefnydd y Mudiad. Dim colled ariannol i'r awdurdod ond cafodd dros £500.00 ei ddwyn gan y Mudiad. Mae'r Heddlu wedi cwblhau eu hymchwiliadau ond neb wedi eu hamau o gyflawni'r drosedd. Rhoddwyd cyngor i bennaeth yr ysgol ynghylch diogelu'r ysgol a'i chynnwys. Y gofalwr, y pennaeth a'r deiliad goriadau swyddogol yn unig sydd yn cadw'r goriadau i ran gymunedol yr ysgol yn awr. |
| 052. 15/16 | Cyfeiriad ynghylch Taflen Amser – Cludiant Cymunedol Môn (MCT) | 4.73 | Cafwyd cyfeiriad gan yr Adran Priffyrdd ac Eiddo ynglŷn â'r posibilrwydd fod aelod o staff MCT yn ffugio ei daflenni amser er elw ariannol. Yn ôl yr ymchwiliadau, canfuwyd bod yr aelod o staff efallai wedi codi nifer ei oriau ond nid oedd wedi mynd y tu draw i'r oriau contract yr oedd yn derbyn tâl amdanynt beth bynnag, ac o'r herwydd nid oedd unrhyw golled ariannol droseddol i'r Awdurdod. Efallai bod problemau rheoli ac mae'r Adran Briffyrdd ac Eiddo wrthi'n rhoi sylw iddynt. Mae ymchwiliad arall hefyd wrthi'n cael ei gynnal ynghylch perthnasau staff ac mae'r adran ac AD wrthi'n delio gyda'r mater hwn. Mae'r mater a gyfeiriwyd i'r Adain Archwilio wedi cael sylw. |
| | Derbynebion am Geisiadau Cynllunio | 2.43 | Codwyd pryderon bod slipiau cydnabod yn cael eu rhoddi yn lle derbynebion yn yr Adran Gynllunio. Mae ymholiadau wedi cadarnhau bod yr arian a dderbyniwyd yn dilyn rhannu slipiau o'r fath wedi cael ei gofnodi a'i fancio'n gywir. Rhoddwyd cyngor y dylai derbynebion swyddogol gael eu rhoddi yn y dyfodol. |
| | Adroddiad Atal Trosedd mewn Ysgolion Cynradd | 13.65 | Yn dilyn nifer o achosion o ladrad/colli arian mewn Ysgolion Cynradd, mae gwerthusiad atal trosedd ac arfer dda wrthi'n cael ei gynnal, gyda golwg ar ddarparu adroddiad ar gyfer yr Adran Addysg yn amlinellu'r gwelliannau a'r arferion da y gallai Ysgolion Cynradd yr Awdurdod eu hystyried. |
| 071.16/17 | Panelau Solar – cyfleuster IVC Penhesgyn | 12.77 | Cyfeiriad gan y Swyddog Adran 151 ynghylch rhestr o gostau a golledion a gyflwynwyd i'r Cyngor gan gwmni mewn perthynas â phrosiect i osod systemau solar ffotofoltaïg ym Mhenhesgyn. |
| 084.16/17 | Peirianwyr Gwresogi | 5.14 | Pryderon bod peiriannydd gwresogi allanol wedi cael anfoneb am waith nad oedd wedi cael ei wneud. Gwaith yn mynd rhagddo. |
| 088.16/17 | Contractau Mân-ddaliadau | 20.47 | Pryderon ynghylch dyrrannu'r contractau i un contractwr. Gwaith yn mynd rhagddo. |
| | Rhaid eraill sy'n mynd rhagddynt/parhaus HB/CTR, RIPA, NFI | 74.53 | Amryfal wiriadau BT cyn eu cyfeirio at yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer ymchwiliad. Ymgynghoriadau RIPA gyda swyddogion awdurdodedig eraill ac adolygiadau polisi i awdurdodiadau nad ydynt yn rhai RIPA, sef y polisi ynghylch gwyliadwriaeth ac arsylwi materion nad ydynt yn swyddogaethau craidd megis materion disgyblu a materion yn ymwneud â mân-droseddau nad ydynt wedi eu cynnwys o fewn ystyr y ddeddf. Mae hyn yn mynd rhagddo mewn ymgynghoriad gyda'r Swyddog Rheoli Data'r Cyngor. Parhau gydag ymarfer NFI2014/15 i ddiweddaru canlyniadau. Hefyd, yn paratoi ar gyfer ymarfer 2016/17 |

**CRYNODEB O YMCHWILIADAU ARBENNIG – 1 EBRILL 2016 I 31 AWST 2016**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | gan wirio setiau data a Rhybuddion Prosesu Teg. |
| **CYFANSWM DYDDIAU** | | **141.08** | |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I** | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| **DYDDIAD** | **9 CHWEFROR, 2016** |
| **PWNC** | **ADRODDIADAU DILYNIANT GAN Y GWASANAETH ARCHWILIO MEWNOL** |
| **SWYDDOG ARWEINIOL** | **PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL - MIKE HALSTEAD** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **RHEOLWR ARCHWILIO - SIONED PARRY** |
| **Natur a rheswm dros adrodd -** Cyflwyno diweddariadau am archwiliadau dilyniant ar Barhad Busnes ac Adfer ar ôl Trychineb TGCh, a hynny er mwyn rhoi sicrwydd bod cynnydd yn cael ei wneud o ran y materion a nodwyd a'r camau gweithredu. | |

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1 Yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y DU, mae'n rhaid i Wasanaethau Archwilio ddilyn i fyny unrhyw gamau rheoli y nodir bod angen eu cymryd yn sgil gwaith a wneir ganddo. Cyfrifoldeb rheolwyr y gwasanaethau unigol ac nid y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yw gweithredu'r argymhellion y cytunwyd arnynt. Cyfrifoldeb y Gwasanaeth Archwilio yw adrodd ar y sefyllfa ddiweddaraf.

1.2 Gofynnodd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu (15/03/16) am ddiweddariad pellach yn nes ymlaen yn y flwyddyn ar yr Archwiliadau Parhad Busnes ac Adfer ar ôl Trychineb TGC er mwyn cael sicrwydd bod cynnydd yn cael ei wneud ar y materion a nodwyd a bod y camau gweithredu'n cael eu rhoi ar waith. Mae manylion am ail Archwiliadau Dilyniant Parhad Busnes ac Adfer ar ôl Trychineb TGCh wedi eu crynhoi yn **Atodiadau A** a **B,** yn y drefn honno.

## 2 <u>ARGYMHELLIAD</u>

2.1 Gofynnir i'r Aelodau ystyried a gwneud sylwadau ar y sicrwydd a ddarperir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn yr adroddiad hwn ar y camau gweithredu a gymerir.

# TREFNIADAU PARHAD BUSNES – AIL ADRODDIAD DILYN-I-FYNY

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1 Cynhaliwyd adolygiad o drefniadau Rheoli Parhad Busnes yn 2015/16, a arweiniodd at raddfa SICRWYDD CYFYNGEDIG.

1.2 Gwnaed dilyniant yn gynharach eleni mewn perthynas â'r cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r argymhellion yn yr Adroddiad Archwilio Mewnol gwreiddiol. Ar adeg yr adolygiad diwethaf, roedd 3 argymhelliad lefel uchel a 2 o argymhellion lefel ganolig angen eu gweithredu.

‘Roedd yr argymhellion lefel uchel yn ymwneud â'r angen i:

- Cwblhau'r Cynllun Parhad Busnes Corfforaethol Dros Dro drafft a’i ddosbarthu i aelodau o'r Tîm Parhad Busnes a rheolwyr fel y bo'n briodol;
- Cadw copi o'r Cynllun Parhad Busnes Corfforaethol mewn lleoliad diogel a hygyrch oddi ar y safle a sicrhau ei fod ar gael fel cyswllt gwe ar serfiwr oddi ar y safle er mwyn sicrhau y gellir cael mynediad iddo hyd yn oed os effeithiwyd systemau gwybodaeth y Cyngor;
- Sicrhau bod y Cynllun Parhad Busnes Corfforaethol yn ymgorffori trefniadau rheoli adfer adeiladau.

1.3 Gwnaed argymhellion lefel ganolig mewn perthynas ag anghenion hyfforddi i gefnogi gweithrediad y Cynllun Parhad Busnes a'r angen i Wasanaethau sicrhau bod cynllunio parhad busnes a chynlluniau argyfwng yn gyfredol ac yn weithredol a’u bod wedi eu cynnwys o fewn Cynlluniau Darparu Gwasanaeth.

## 2. CASGLIADAU

2.1 Nododd yr ail adolygiad dilyniant bod y ddau argymhelliad lefel uchel a oedd heb eu gweithredu ar adeg yr adolygiad diwethaf wedi cael eu rhoi ar waith yn llawn, fel a ganlyn:

- Cwblhawyd y Cynllun Parhad Busnes Corfforaethol a chafodd ei gymeradwyo fel dogfen fyw gan yr UDA ar 03/10/16.
- Mae'r Cynllun Parhad Busnes Corfforaethol wedi cael ei lwytho i fyny ar Resilience Direct, llwyfan rhannu gwybodaeth diogel ar y we sy’n caniatáu rhannu dogfennau’n ddiogel ymhlith unigolion a enwebir ac sy’n rhoi mynediad ar unwaith i wybodaeth amser gwirioneddol, gan hwyluso ymateb cydlynol ac adferiad yn ystod argyfwng.

2.2 Asesir bod yr argymhelliad lefel uchel oedd ar ôl mewn perthynas â’r angen i gynnwys rheoli trefniadau adfer adeiladau yn y Cynllun Parhad Busnes Corfforaethol wedi ei roi ar waith yn rhannol. Datblygwyd Cynllun Adfer Adeiladau drafft gan y Gwasanaethau Eiddo; unwaith y bydd y Cynllun wedi ei gwblhau a'i gymeradwyo, bydd yn cael ei ddosbarthu fel y bo'n briodol

a chaiff copi ei gadw ar Resilience Direct. Gan nad yw wedi ei roi ar waith yn llawn mae’r argymhelliad wedi ei ailadrodd.

2.3 Gwnaed argymhellion lefel ganolig mewn perthynas ag anghenion hyfforddi i gefnogi gweithrediad y Cynllun Parhad Busnes a'r angen i Wasanaethau sicrhau bod cynllunio parhad busnes a chynlluniau argyfwng yn gyfredol ac yn weithredol a’u bod wedi eu cynnwys o fewn Cynlluniau Darparu Gwasanaethau.

2.4 Asesir bod yr argymhelliad lefel ganolig mewn perthynas ag anghenion hyfforddi wedi ei weithredu’n llawn.

2.5 Mewn perthynas â'r argymhelliad lefel ganolig oedd ar ôl, mae gwasanaethau wedi datblygu Cynlluniau Parhad Busnes i gofnodi trefniadau parhad busnes a chynlluniau argyfwng ar lefel gwasanaeth ac wedi nodi staff allweddol i fod yn gyfrifol am weithredu trefniadau parhad busnes. Serch hynny, nid yw pob gwasanaeth wedi cynnwys parhad busnes o fewn eu Cynlluniau Darparu Gwasanaethau i sicrhau bod trefniadau’n cael eu cynnal a’u hadolygu'n gyson a’u bod wedi eu cysylltu â’r risg gysylltiedig ar y Gofrestr Risg Gwasanaeth. Felly fe ailadroddir y rhan hon o'r argymhelliad.

2.6 Asesir bod y Cyngor wedi dangos '**Cynnydd da'** o ran gweithredu'r camau y cytunwyd arnynt i fynd i'r afael ag argymhellion yr archwiliad.

| Lefel Sicrwydd | Diffiniad | Ymyrraeth gan reolwyr |
|---|---|---|
| **SICRWYDD SYLWEDDOL** | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaethau mewnol yn dda.<br>Ni chanfuwyd diffygion sylweddol neu arwyddocaol. | Ychydig iawn o gamau lefel isel y bydd angen i reolwyr eu cymryd, os o gwbl. |

# AIL ADRODDIAD DILYN-I-FYNY AR DREFNIADAU ADFER AR ÔL TRYCHINEB TGCh

## 1 RHAGARWEINIAD

1.1 Yn 2015/16, cynhaliwyd archwiliad o drefniadau Adfer y Cyngor ar ôl Trychineb TGCh. Canlyniad yr archwiliad oedd graddfa SICRWYDD LLEIAF.

1.2 Gwnaed gwaith dilyniant yn gynharach eleni mewn perthynas â'r cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r argymhellion yn yr Adroddiad Archwilio Mewnol gwreiddiol. Ar adeg yr adolygiad diwethaf, roedd 4 o argymhellion lefel uchel a 4 o argymhellion lefel ganolig heb gael eu gweithredu.

1.3 Ers yr adroddiad diwethaf, buddsoddwyd i sicrhau bod y trefniadau wrth gefn ac adfer ar gyfer systemau TGCh a data yn gadarn, gwydn a dibynadwy ym mhob achos. Mae system storio haenog soffistigedig wedi ei sefydlu bellach a gosodwyd systemau meddalwedd er mwyn darparu datrysiad wrth gefn integredig, gan gynnwys rhai o'r technolegau mwyaf datblygedig sydd ar y farchnad ar hyn o bryd ar gyfer isadeiledd rhithiol. Mae isadeiledd pwrpasol ar gyfer storio, gan gynnwys storio data gweithredol deuol gydag UPS pwrpasol, yn sicrhau cynhwysedd a gwydnwch lefel uchel i sicrhau y gall systemau busnes a gwybodaeth y Cyngor weithredu ar sail barhaus.

1.4 Mae materion dyluniad wedi achosi oedi gydag ail-leoli'r system storio ddyblyg i'r ganolfan newydd oddi ar y safle – canolbwyntir yn awr ar sicrhau bod y dyluniad a'r ffabrig yn iawn. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y system wedi ei hail-leoli erbyn diwedd y flwyddyn.

1.5 Mae cynnig wedi ei wneud gan y Rheolwr Trawsnewid Busnes TGCh i sefydlu Bwrdd Trefniadau Llywodraethu TG. Yn ogystal â sicrhau bod y broses gwneud penderfyniadau yn un gorfforaethol a bod adnoddau TG yn cael eu defnyddio'n unol â blaenoriaethau'r Cyngor, bydd hyn o gymorth i sicrhau bod Adfer ar ôl Trychineb TGCh yn rhan o drefniadau busnes fel arfer. Byddai fforwm o'r fath yn sicrhau y gallai'r Gwasanaeth TGCh gael gwybod am brif systemau hanfodol y Cyngor ac unrhyw ddatblygiadau ynddynt, a hynny er mwyn sicrhau bod TGCh yn gallu blaenoriaethu cymorth ar gyfer y systemau hyn, yn ogystal â chael gwybod am systemau eraill, llai amlwg. Gallai cymryd rhan yn y 'Bwrdd Trefniadau Llywodraethu TG' sicrhau y gellid datblygu rôl y gwasanaethau mewn perthynas ag adfer systemau busnes a byddai'n eu hannog i

gymryd rhan mewn gwaith i roi prawf rheolaidd ar systemau ac ar ddata a adenillwyd i sicrhau bod y drefn wedi gweithio'n llwyddiannus, gan ddangos cydymffurfiaeth â chynlluniau adfer ôl-trychineb / parhad busnes y gwasanaethau unigol a pherchenogaeth ohonynt.

## 2. CASGLIADAU

2.1 Roedd un argymhelliad lefel uchel yn ymwneud â'r angen i gynhyrchu, mabwysiadu a gweithredu cynllun cynhwysfawr ar gyfer Trefniadau Adfer ar ôl Argyfwng TGCh; er y cydnabyddir y bydd y cynllun yn datblygu ac yn aeddfedu, mae cynllun wedi ei sefydlu, ac ystyrir felly bod yr argymhelliad wedi ei weithredu at ddibenion yr adolygiad hwn.

2.2 Ystyrir bod un argymhelliad lefel uchel arall wedi ei weithredu i raddau helaeth fel a ganlyn:

- Cynhaliwyd profion ad-hoc ar drefniadau i adfer ffeiliau, ffolderi a systemau fel rhan o brofion defnyddwyr ar y system wrth gefn.

2.3 Mae'r trydydd argymhelliad lefel uchel yn ymwneud â'r angen am brawf ar y trefniadau adfer systemau a data mewn amgylchedd byw, yn ogystal ag mewn amgylchedd prawf, a bod angen cynnal prawf allanol oddi ar y safle, yn ogystal â phrawf mewnol. Erys yr angen i ymgorffori'r prawf hwn yn y Cynllun Adfer ar ôl Trychineb TGCh ac i gynnal prawf ar o'r fath yn rheolaidd i sicrhau bod y cyfryngau adfer yn ddibynadwy ac yn wydn.

2.4 Mae'r argymhelliad lefel uchel sy'n weddill yn ymwneud â'r angen i gofnodi'n ffurfiol y cyfrifoldeb am gynnal a chadw a monitro'r systemau rheoli amgylcheddol ac atal tân yn y canolfannau data; gwnaed argymhelliad newydd i'r perwyl bod y cyfrifoldeb am reoli a chynnal yr UPS a systemau tymheru aer o fewn y canolfannau data TGCh (yn ogystal â chynnal a chadw generaduron pŵer a systemau atal tân) yn cael ei drosglwyddo i'r Gwasanaethau Eiddo i'w ymgorffori yn y System Rheoli Adeiladau. Yna, bydd materion parhad busnes yn cael sylw drwy'r 'Cynllun Adfer Adeiladau'.

2.5 Asesir bod y Cyngor wedi dangos **'Cynnydd rhesymol'** wrth weithredu'r camau y cytunwyd arnynt i fynd i'r afael ag argymhellion yr archwiliad.

| Lefel Sicrwydd | Diffiniad | Ymyrraeth gan reolwyr |
|---|---|---|
| SICRWYDD RHESYMOL | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a / neu reolaethau mewnol yn rhesymol. | Mae angen i reolwyr gymryd cymryd camau rheoli effaith isel – cymedrol. |

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

## BLAENRAGLEN WAITH

RHAGFYR 6, 2016

| | |
|---|---|
| Swyddog Cyswllt: | Sioned Parry |
| | Rheolwr Archwilio |
| E-bost: | SionedParry@ynysmon.gov.uk |
| Ffôn: | 01248 756211 |

| Dyddiad | Pwnc | Swyddog cyfrifol<br>(Gan gynnwys cyfeiriad e-bost) |
|---|---|---|
| **Chwefror 9, 2017**<br><br>**25 Gorffennaf, 2017**<br><br>**Medi 21, 2017**<br><br>**Rhagfyr 5, 2017**<br><br>**Chwefror 13, 2018** | **Cynnydd a wnaed ynghylch Adroddiadau gan Reoleiddwyr Allanol**<br>Ystyried y cynnydd a wnaed ynghylch Adroddiadau gan Reoleiddwyr Allanol sy’n ymwneud yn uniogyrchol â materion llywodraethu neu reoli risg o fewn y Cyngor. | **Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Perfformiad**<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| **Chwefror 9, 2017**<br><br>**Medi 21, 2017** | **Ymchwiliadau i Fudd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor**<br>Bydd yr adroddiad yn nodi manylion y ceisiadau yr ymchwiliwyd iddynt yn llwyddiannus gan y Tîm Ymchwilio i Fudd-daliadau. | **Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)**<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Chwefror 9, 2017**<br>**Mehefin 28, 2017**<br>**25 Gorffennaf,** | **Perfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn erbyn y Cynllun Archwilio Blynyddol**<br>Adolygu perfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn erbyn y Cynllun Archwilio Blynyddol bob chwarter. | **Rheolwr Archwilio**<br>SionedParry@ynysmon.gov.uk |

| | | |
|---|---|---|
| **2017<br>Rhagfyr 5, 2017<br>Chwefror 13, 2018** | | |
| **Mehefin 28, 2017** | **Addroddiad Drafft y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) ynghylch yr Adroddiad Cyllid a Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2016/17.** | **Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)**<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Medi 21, 2017** | **Adroddiad Canol Blwyddyn ar Reoli'r Trysorlys ar gyfer 2017/2018**<br>Bydd yr adroddiad yn ymhelaethu ar sefyllfa'r Cyngor o ran cydymffurfio â'i Strategaeth Rheoli Trysorlys a'i Strategaeth Fuddsoddi, ac yn nodi'r sefyllfa gyfredol o ran buddsoddiadau a benthyca. | **Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)**<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Medi 21, 2017** | **Gweithgaredd Rheoli Trysorlys a Dangosyddion Darbodus Gwirioneddol ar gyfer 2017/2018**<br>Mae'n rhaid darparu adroddiad trysorlys blynyddol yn unol â gofynion gweithdrefnau adrodd y Cyngor ac mae'n rhoi sylw i weithgarwch y trysorlys ar gyfer 2017/2018. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys y Dangosyddion Darbodus Gwirioneddol ar gyfer 2017/2018 yn unol â gofynion y Côd Darbodus. | **Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)**<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Medi 21, 2017** | **Adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Ariannol ynghylch yr Adroddiad Cyllid a Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2016/2017.**<br>Mae'r Pwyllgor Archwilio yn gyfrifol am gymeradwyo'r cyfrifon ar ran y Cyngor, ac mae hefyd yn gyfrifol am faterion llywodraethu. Felly, mae angen i'r Pwyllgor Archwilio gymeradwyo'r Adroddiad Cyllid a Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2016/2017, gan gynnwys Datganiad Cyfrifon 2016/2017, derbyn adroddiad yr Archwilydd Penodedig ar y | **Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)**<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |

| | | |
|---|---|---|
| | cyfrifon a'r ISA 260 sy'n nodi bod gofyn i'r Pwyllgor gymeradwyo'r Llythyr Cynrychiolaeth terfynol. | |
| **Rhagfyr 6, 2016**<br><br>**Mehefin 28, 2017**<br><br>**Rhagfyr 5, 2017** | **Cofrestr Risgiau Corfforaethol**<br>**Ystyried y risgiau corfforaethol a nodir yn y Gofrestr.** | **Rheolwr Risg ac Yswiriant**<br>JulieJones@ynysmon.gov.uk |
| **Mawrth 2017** | **Strategaeth a Chynllun Blynyddol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol am 2017-2018**<br>Cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus am 2013 lle cyflwynir Strategaeth a Chynllun Blynyddol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'w cymeradwyo. | **Rheolwr Archwilio**<br>SionedParry@ynysmon.gov.uk |
| **Rhagfyr 6, 2016**<br><br>**Chwefror 9, 2017** | **Strategaeth Fuddsoddi / Polisi Isafswm Refeniw**<br>Rhoi gwybod i'r Aelodau am y Strategaeth Fuddsoddi a'r Polisi Isafswm Refeniw ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. | **Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)**<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |

| **Eitemau yn y Dyfodol** | | |
|---|---|---|
| **Mehefin 28, 2017** | **Cynllun Gweithredu ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2016/2017**<br>Adrodd ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r argymhellion yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2015/2016. | **Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Perfformiad**<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| **Mehefin 28, 2017** | **Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2016/2017**<br>O dan delerau'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio, mae gofyn i'r Cyngor gynnal adolygiad bob blwyddyn o effeithiolrwydd ei system rheolaeth fewnol ac adolygu perfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn erbyn Cynllun Archwilio Blynyddol 2016/2017. | **Rheolwr Archwilio**<br>SionedParry@ynysmon.gov.uk |
| **25 Gorffennaf, 2017** | **Datganiad Llywodraethu Blynyddol**<br>Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu roi sylwadau ar gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft ar gyfer 2016/2017 a chyfrannu at yr arfarniadau, y casgliadau a'r argymhellion a gynigir i ddatblygu neu gryfhau elfennau o drefniadau llywodraethu'r Cyngor yn ystod 2017/2018. | **Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Perfformiad**<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| **Chwefror 9, 2017** | **Diweddariadau ar Archwiliadau Mewnol:**<br>Parhad Busnes<br>Adfer TGCh ar ôl Trychineb | **Rheolwr Archwilio**<br>SionedParry@ynysmon.gov.uk |
| **Mehefin 28, 2017** | **Diweddariad Archwiliad Mewnol:**<br>Diogelu Corfforaethol | **Rheolwr Archwilio**<br>SionedParry@ynysmon.gov.uk |